

Cyfrif Pawb Fel Fi

Canlyniadau cyfrifiad cenedlaethol 2006 cleifion mewnol ysbytai a chyfleusterau iechyd meddwl ac anabledau dysgu yng Nghymru a Lloegr

Tachwedd 2006



**National Institute for
Mental Health in England**



First published in March 2007

© 2007 Commission for Healthcare Audit and Inspection

Items may be reproduced free of charge in any format or medium provided that they are not for commercial resale. This consent is subject to the material being reproduced accurately and provided that it is not used in a derogatory manners or misleading context.

The material should be acknowledged as © 2007 Commission for Healthcare Audit and Inspection with the title of the document specified.

Applications for reproduction should be made in writing to:
Chief Executive, Commission for Healthcare Audit and Inspection,
Finsbury Tower, 103-105 Bunhill Row, London, EC1Y 8TG

ISBN 1-84562-117-4

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	2
Cyflwyniad	7
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	9
Gwybodaeth am anableddau dysgu	11
Cyrrff cenedlaethol sy'n cydlynu'r cyfrifiad	14
Data, dulliau dadansoddi a dehongli	17
Canlyniadau: iechyd meddwl	19
Canlyniadau: anableddau dysgu	41
Casgliadau: iechyd meddwl	54
Casgliadau: anableddau dysgu	56
Cyfeiriadau	58
Atodiad A: dulliau dadansoddi	60
Atodiad B: tablau iechyd meddwl	62
Atodiad C: tablau anableddau dysgu	72

Crynodeb gweithredu

Dylai pob claf dderbyn yr un lefel uchel o ofal iechyd heb ystyried ffactorau megis hil, crefydd, oedran, rhyw, tueddfryd rhywiol, a pha un a oes ganddo/ganddi anabledd neu beidio. Mae angen i asiantaethau'r Llywodraeth gydweithio'n effeithiol ag asiantaethau gwirfoddol, cymunedau ethnig lleiafrifol a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael ag amrywiadau yn y ffordd y defnyddir gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu ac i roi ystyriaeth i wahanol batrymau o afiechydon meddwl.

Nod yr adroddiad hwn yw:

1. cael ffigurau manwl gywir yn achos cleifion mewnol mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yng Nghymru a Lloegr
2. annog darparwyr gwasanaethau iechyd i weithredu gweithdrefnau i gofnodi a monitro'n drwyadl ddata grwpiau ethnig cleifion
3. darparu gwybodaeth i gynorthwyo darparwyr gwasanaethau iechyd i symud ymlaen i gyflawni cynllun pum mlynedd y Llywodraeth *Delivering Race Equality in Mental Health Care*, sy'n amcanu gwella gwasanaethau iechyd meddwl i gymunedau du ac ethnig lleiafrifol. Mae'r *Race Equality Action Plan for Adult Mental Health Services in Wales* yn darparu gwybodaeth debyg

Ar Fawrth 31, 2006, cynhaliwyd cyfrifiad cenedlaethol o ethnigrwydd cleifion mewnol mewn ysbytai a chyfleusterau iechyd meddwl ac anableddau dysgu GIG ac annibynnol yng Nghymru a Lloegr. Menter ar y cyd oedd hon rhwng y Comisiwn Gofal Iechyd, Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl (MHAC) a Sefydliad Cenedlaethol Iechyd Meddwl yn Lloegr (NIMHE). Cynhwyswyd hefyd gleifion mewnol ag anhwylder syndrom awtistiaeth, a rhai â syndrom Asperger.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cynnwys adran sy'n rhoi gwybodaeth am gleifion mewnol sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl ac adran am gleifion mewnol sy'n derbyn gwasanaethau anableddau dysgu. Gwahanwyd y ddwy adran i ganiatáu cymharu â chyfrifiad 2005, nad oedd yn cynnwys cleifion mewn gwasanaethau anableddau dysgu.

Darganfyddiadau allweddol

Iechyd meddwl

Cawsom wybodaeth am 32,023 o gleifion mewnol ar wardiau iechyd meddwl 238 o sefydliadau gofal iechyd GIG ac annibynnol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r patrymau a ddaeth i'r amlwg o'r cyfrifiad hwn yn debyg iawn i'r rhai a welwyd yng nghyfrifiad 2005 ac roedd 30% o'r cleifion

mewnol yn 2006 hefyd yn gleifion mewnol yn 2005.

Dyma'r darganfyddiadau allweddol:

- roedd gwybodaeth am ethnigrwydd ar gael yn achos 98.9% o gleifion mewnol, lle roedd 79% o'r rhain yn Brydeinwyr Gwyn, 9% o grwpiau Du neu Gymysg Gwyn/Du, 3% o grwpiau De Asiaidd, 2% yn Wyddelod Gwyn, 4% o grwpiau Gwyn Arall, a 3% o grwpiau ethnig eraill
- roedd bron i 70% o gleifion du a rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol mewn 23 o'r 238 sefydliad
- dywedodd 5% o gleifion mewnol nad Saesneg oedd eu mamiaith
- roedd cyfraddau derbyn yn is na'r cyfartaledd ymysg y grwpiau Prydeinig Gwyn, Indiaidd a Tsieineaidd, ac yn uwch na'r cyfartaledd yn yr holl grwpiau ethnig eraill. Roedd y cyfraddau derbyn uchaf ymysg grwpiau Du a Chymysg Gwyn/Du (teirgwaith neu fwy yn uwch na'r cyfartaledd)
- yn y tri grŵp Du - Caribiaidd Du, Affricanaidd Du a Du Arall - roedd cyfraddau atgyfeirio gan feddygon teulu a thimau iechyd meddwl cymunedol yn is na'r cyfartaledd ac roedd cyfraddau atgyfeirio gan y system cyfiawnder troseddol yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd gan grwpiau Caribiaidd Cymysg Gwyn/Du, Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du a Gwyn Arall hefyd gyfraddau atgyfeirio uwch na'r cyfartaledd gan y system cyfiawnder troseddol. Roedd gan y grŵp Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du a'r grŵp Bangladeshaidd hefyd gyfradd atgyfeirio isel gan feddygon teulu. Dangosai grwpiau ethnig eraill lai o wahaniaethau cyson o ran cyfraddau cymharol.
- Cadwyd 40% o gleifion mewnol dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ôl cael eu derbyn. Roedd cyfraddau cadw ymysg grwpiau Du a Chymysg Gwyn/Du rhwng 19% a 38% yn uwch na'r cyfartaledd. Yn achos y grwpiau Caribiaidd Du a Du Arall, roedd y gyfradd gadw uwch i'w phriodoli i raddau helaeth i'r cyfraddau cadw uwch na'r cyfartaledd dan adran 37/41 - lle anfonir unigolyn i'r ysbyty gan lysoedd i dderbyn triniaeth, dan orchymyn cyfyngiad gan y Swyddfa Gartref. Mewn cyferbyniad, roedd cadwadau dan adrannau sifil y Ddeddf un ai'n is na'r cyfartaledd yn y grwpiau hyn (adran 2) neu heb fod yn wahanol i'r cyfartaledd (adran 3). (Mae tua 67% o'r holl gadwadau dan adrannau sifil 2 a 3.) Ni ddangosai grwpiau ethnig lleiafrifol eraill gyfraddau cadw gormodol
- roedd cyfraddau neilltuaeth yn uwch na'r cyfartaledd yn achos dynion o grwpiau Gwyddelig Gwyn a Charibiaidd Cymysg Gwyn/Du, a'r grŵp Du Arall ar y cyfan, ond gostyngodd

cyfraddau yn achos pedwar grŵp ethnig lleiafrifol o fod yn uchel yn 2005 i fod yn agos at y cyfartaledd. Roedd cyfradd ataliadau corfforol yn uchel yn y grŵp Caribiaidd Gwyn/Du. Roedd cyfraddau hunan-niweidio a damweiniau yn uchel ymysg y grŵp Prydeinig Gwyn, ac yn isel mewn nifer o grwpiau ethnig lleiafrifol. Roedd cyfradd ymosodiadau yn uchel ymysg merched Caribiaidd Du

- Roedd 30% o gleifion wedi bod yn yr ysbyty am flwyddyn neu fwy. Hyd canolrifol yr arhosiad o'r diwrnod derbyn hyd at ddiwrnod y cyfrifiad oedd dau fis a hanner yn achos merched a phum mis yn achos dynion. Roedd hyd canolrifol arhosiad y grwpiau Prydeinig Gwyn, De Asiaidd a Tsieineaidd yn fyrrach na'r cyfartaledd. Ymysg y grŵp Caribiaidd Du yr oedd yr hyd canolrifol arhosiad uchaf

Anableddau dysgu

Cawsom wybodaeth am 4,609 o gleifion mewnol mewn 124 sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru a Lloegr.

Dyma'r darganfyddiadau allweddol:

- roedd gwybodaeth am ethnigrwydd ar gael yn achos 98.8% o gleifion mewnol, ac roedd 89% o'r rhain yn Brydeinwyr Gwyn, 5% o grwpiau Du neu Gymysg Gwyn/Du, 2% o grwpiau De Asiaidd, 1% yn Wyddelod Gwyn, 2% o grwpiau Gwyn Arall, ac 1% o grwpiau ethnig eraill. Roedd gan amryw o grwpiau ethnig lleiafrifol niferoedd isel o gleifion
- roedd tua 77% o gleifion du ac ethnig lleiafrifol mewn 27 o'r 124 sefydliad
- dywedodd 5% o'r cleifion mewnol nad Saesneg oedd eu mamiaith. Cofnodwyd achosion o gyfathrebu di-eiriau, Signalong, munudio, Makaton a Iaith Arwyddo Prydain hefyd yn achos nifer o gleifion mewnol ag anableddau dysgu
- roedd cyfraddau derbyn yn is na'r cyfartaledd ymysg grwpiau De Asiaidd, Asiaidd Arall, Gwyn Arall a Tsieineaidd, a rhwng dwy a thair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd ymysg y grwpiau Caribiaidd Du, Caribiaidd Cymysg Gwyn/Du a Du Arall. Mae'n debygol fod rhai o'r cleifion o'r grwpiau Du yn gleifion iechyd meddwl
- roedd cyfraddau atgyfeirio gan ofalwyr yn ddwbl y cyfartaledd ymysg grwpiau Gwyddelig Gwyn, Gwyn Arall a Charibiaidd Du
- cadwyd 35% o gleifion mewnol dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ôl cael eu derbyn. Yn wahanol i'r cleifion mewnol iechyd meddwl, ni sylwyd ar wahaniaethau ethnig yn achos cyfraddau cadw ymysg

cleifion mewnol ag anableddau dysgu

- roedd 67% o'r cleifion wedi bod yn yr ysbyty am flwyddyn neu fwy, a 37% am fwy na phum mlynedd. Hyd canolrifol yr arhosiad o'r diwrnod derbyn i ddiwrnod y cyfrifiad oedd 36 mis yn achos merched a 32 mis yn achos dynion. Nid yw cymariaethau ar draws grwpiau ethnig lleiafrifol yn ddibynadwy oherwydd y niferoedd bychain o gleifion

Casgliadau

Gellir dod i nifer o gasgliadau o ystyried darganfyddiadau allweddol yr adroddiad hwn. Yn gyntaf, yn achos cleifion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl, mae'n bwysig peidio â chyffredinolli ynglŷn â phobl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, o ystyried y patrymau gwahanol iawn y sylwyd arnynt yn achos y gwahanol grwpiau. Dylid dehongli canlyniadau'r cyfrifiad yng ngoleuni tystiolaeth gwaith ymchwil arall ar amrywiadau mynychder afiechydon meddwl, y defnydd o wasanaethau a dulliau gofal ymysg gwahanol grwpiau ethnig.

Nododd y cyfrifiad fod cyfraddau cadw yn gyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd ymysg grwpiau Du a Chymysg Gwyn/Du. Roedd y cyfraddau cadw uwch mewn rhai o'r grwpiau hyn i'w priodoli i raddau helaeth i gyfraddau cadw uwch na'r cyfartaledd dan adran 37/41 y Ddeddf Iechyd Meddwl. Nid oedd cadwadau dan adrannau sifil y Ddeddf, a gyfrifai am oddeutu dwy ran o dair o'r holl gadwadau, yn ddim gwahanol i'r cyfartaledd ymysg y rhain a grwpiau ethnig lleiafrifol eraill, ac mewn rhai achosion roeddynt yn is. Nid oedd gwahaniaethau mewn cyfraddau cadw yn amlwg yn achos grwpiau ethnig lleiafrifol eraill.

Yn ail, argymhellir fod pob ymdrech yn cael ei gwneud gan asiantaethau statudol, drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill, i ddeall yr anghenion demograffig lleol ac i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau a fydd yn gwella dulliau gofal ar gyfer grwpiau du ac ethnig lleiafrifol.

Yn olaf, disgwyliwn i ddarparwyr gofal iechyd meddwl GIG a'r sector annibynnol ddatblygu systemau i gofnodi a monitro ethnigrwydd mewn modd cynhwysfawr.

Mewn rhai astudiaethau cysylltwyd mynychder uwch anableddau dysgu mewn rhai cymunedau ethnig lleiafrifol â lefelau uchel o amddifadiad materol a chymdeithasol. Efallai bod y rhain yn cael eu cymhlethu gan ffactorau eraill, megis anawsterau cael gofal iechyd mamol da a chyfraddau uwch o ffactorau risg amgylcheddol neu enetig. Mae anfanteision o'r fath yn cymhlethu'r anawsterau a wynebwr gan y gofaluwr a'u cyfleoedd gwaith. Adroddir bod mynychder anawsterau dysgu yn uwch ymysg rhai grwpiau De Asiaidd, ond ni ddangosir hyn yn ein darganfyddiadau. Mae'n hanfodol fod gan wasanaethau anableddau dysgu drefniadau monitro

ethnigol cywir a chynaliadwy ar waith, yn yr un modd ag y disgwylir i wasanaethau iechyd meddwl gael rhai.

Mae ansawdd y data sydd ar gael yn fater o bwys. Mae data o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn monitro a gwella mynediad cleifion i ofal iechyd, ansawdd y gofal y maent yn ei dderbyn a chanlyniadau'r gofal hwnnw. Mae hyn yn wir yn achos pob claf â phroblemau iechyd meddwl ac anabledau dysgu, gan gynnwys y rhai o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol.

Gellid gwella'r dull o gofnodi data cleifion. Rydym wedi argymhell i'r Adran Iechyd a'r Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y dylid cofnodi ethnigrwydd cleifion fod yn orfodol, a hynny ar fyrder, yn achos pob claf heb ystyried pa un ai yw'n derbyn triniaeth yn y gymuned neu mewn ysbyty. Rydym hefyd wedi eu hargymhell eu bod yn gwneud newidiadau ac estyniadau i'r Set Data-Minimwm Iechyd Meddwl. Mae mater pellach sy'n berthnasol i gleifion ag anabledd dysgu. Ar hyn o bryd, nid yw cofnodi anabledd, gan gynnwys anabledd dysgu, yn orfodol yn y data a gesglir yn rheolaidd gan yr Adran Iechyd. Gofynnwn i'r Adran Iechyd a'r Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried cynnwys gwybodaeth am anabledau yng nghofnodion cleifion.

Cyflwyniad

Un o amcanion y Llywodraeth yw hyrwyddo cydraddoldeb mewn gofal iechyd - i sicrhau fod yr un lefelau uchel o ofal iechyd yn cael eu darparu i bob claf, beth bynnag fo'i oedran, rhyw, hil, crefydd a thueddfryd rhywiol, a heb ystyried pa un a oes ganddo/ganddi anabledd neu beidio. Mae'n gweithio i gyrraedd y nod hwn drwy gyfrwng ei pholisïau, a thrwy ddeddfwriaeth y mae'r cyrff gofal iechyd yn gorfod cydymffurfio â hi.

Er hynny, mae patrymau afiechyd meddwl a'r ffyrdd y defnyddir gwasanaethau iechyd meddwl yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol grwpiau ethnig. Er mwyn mynd i'r afael â hyn mae angen cyfraniad gweithredol nifer o grwpiau ac unigolion: gwleidyddion, gwneuthurwyr polisïau, darparwyr gwasanaethau o bob sector, comisiynwyr gwasanaethau, defnyddwyr gwasanaethau, gofalyr, asiantaethau gwirfoddol a grwpiau ethnig lleiafrifol eu hunain.

Ar Fawrth 31, 2006 cynhaliodd y Comisiwn Gofal Iechyd, Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl (MHAC) a Sefydliad Cenedlaethol Iechyd Meddwl yn Lloegr (NIMHE) gyfrifiad cenedlaethol ar ethnigrwydd cleifion mewnol mewn ysbytai a chyfleusterau iechyd meddwl ac anableddau dysgu GIG ac annibynnol yng Nghymru a Lloegr. Roedd y cyfrifiad hefyd yn cynnwys manylion dewisedig ynglŷn ag arhosiad claf yn yr ysbyty, megis sut yr oedd wedi cael ei atgyfeirio yno, am ba hyd yr oedd wedi bod yn glaf mewnol, a pha un a oedd wedi cael ei gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Cynhwyswyd gennym gleifion mewnol ag anhwylder syndrom awtistiaeth, yn cynnwys rhai â syndrom Asperger. Casglasom wybodaeth am 36,632 o gleifion mewnol i gyd.

Gwnaed cyfrifiad tebyg gennym yn 2005, er mai cleifion mewnol mewn ysbytai a chyfleusterau iechyd meddwl yn unig a holwyd yr adeg honno.¹ Yn 2005 a 2006, ymgwymerwyd â'r cyfrifiad i gefnogi cynllun gweithredu pum mlynedd yr Adran Iechyd i wella gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cymunedau duon ac ethnig lleiafrifol, o'r enw *Delivering Race Equality in Mental Health Care*.² Mae'r Adran Iechyd yn mynnu bod cyrff gofal iechyd yn gweithio tuag at gyrraedd y targedau a nodir yn y cynllun gweithredu hwn, a sicrhau cydymffurfiaid â'i safonau i wella gofal iechyd a nodir yn ei dogfen fframwaith 2004, *National Standards, Local Action*.³

Mae'r cynllun gweithredu *Delivering Race Equality in Mental Health Care* yn nodi mwy na 70 o gamau gweithredu y dylai cyrff gofal iechyd eu cymryd i sicrhau fod gan eu gwasanaethau 12 nodwedd ddymunol erbyn 2010.

Mae gan y cynllun gweithredu hwn dri bloc adeiladu:

- gwasanaethau mwy addas ac ymatebol
- mwy o ymrwymiad cymunedol
- gwybodaeth o ansawdd uwch, yn cael ei defnyddio'n fwy deallus

Mae'r cyfrifiad *Cyfrif Pawb Fel Fi* hwn yn cynorthwyo cyrff gofal iechyd â'r trydydd bloc adeiladu, drwy ddarparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau sy'n berthnasol i, ac yn deillio o, bryderon a gwerthoedd yr holl grwpiau o fewn y gymuned.

Mae'r cyfrifiad hefyd yn cefnogi Codi'r Safon: *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru*⁴, a gyhoeddwyd yn Hydref 2006. Amcan y cynllun gweithredu yw gwella cydraddoldeb mynediad, triniaethau a chanlyniadau yn narpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl oedolion i grwpiau ethnig lleiafrifol yng Nghymru.

Prif gamau gweithredu'r cynllun hwn yw:

- datblygu'r sail tystiolaeth - monitro cleifion mewnol a chleifion yn y gymuned
- cynllunio gwasanaethau addas ac ymatebol yn cynnwys cynnal asesiadau effaith hil ar yr holl brif bolisiâu a gweithdrefnau newydd, pan fo hynny'n berthnasol
- hyfforddi a recriwtio
- cyflwyno gwasanaethau
- rheoli, monitro ac archwilio perfformiadau

Cyf: Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion 2006: Codi'r safon - Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion yng Nghymru, Hydref 2006

<<http://www.wales.nhs.uk/documents/raceequalityEBOOK-15-11-6.pdf>>

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau cyfrifiad *Cyfrif Pawb Fel Fi 2006*. Rydym wedi gwahanu'r adrannau sy'n ymwneud â chleifion mewnol sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl a'r gwasanaethau anabledau dysgu i ganiatáu cymharu â chyfrifiad 2005, nad oedd yn cynnwys cleifion oedd yn derbyn gwasanaethau anabledau dysgu.

Dyma'r tro cyntaf i wybodaeth genedlaethol gael ei chasglu am gleifion mewnol sy'n derbyn gwasanaethau anabledau dysgu mewn sefydliadau gofal iechyd GIG ac annibynnol.

Yn wahanol hefyd i 2005, rydym wedi casglu gwybodaeth am dueddfryd rhywiol cleifion, eu hanghenion gyda golwg ar ddehongli ieithyddol a hyd eu harhosiad yn yr ysbyty, yn ogystal â gwybodaeth am rai anabledau eraill.

Mae amcanion cyfrifiad 2006 yr un fath â rhai 2005:

- darganfod ffigurau cadarn ar gyfer yr holl gleifion mewnol (y rhai a gadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r rhai a dderbyniwyd yn 'anffurfiol', hynny yw, heb fod o dan y Ddeddf) mewn ysbytai a chyfleusterau iechyd meddwl ac anabledau dysgu yng Nghymru a Lloegr
- annog y darparwyr gofal iechyd hyn i roi gweithdrefnau ar waith i gadw cofnodion cywir a chynhwysfawr o ethnigrwydd cleifion, ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon i fonitro ethnigrwydd
- darparu gwybodaeth a fydd yn cynorthwyo darparwyr gofal iechyd i gymryd camau ymarferol i gyflawni cynllun pum mlynedd y Llywodraeth, *Delivering Race Equality in Mental Health Care*

Nid yw'r cyfrifiad yn asesu ansawdd gwasanaethau, profiad cleifion na'r rhesymau am unrhyw wahaniaethau a ddarganfuwyd rhwng grwpiau ethnig.

Ceir mwy o wybodaeth am y cyfrifiad a sut y cafodd ei weithredu yn:

<http://www.mhac.org.uk/census2006/>

Mae'r set gyfan o ganlyniadau ar gael yn:

www.healthcarecommission.org.uk/countmein

Y categorïau ethnig y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol Gwladol (ONS) yn ei chyfrifiad yn 2001 o boblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr:

- Prydeinig Gwyn
- Gwyddelig Gwyn
- Gwyn Arall
- Caribiaidd Cymysg Gwyn/Du
- Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du
- Cymysg Asiaidd/Gwyn
- Cymysg Arall
- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshiaidd
- Asiaidd Arall
- Caribiaidd Du
- Affricanaidd Du
- Du Arall
- Tsieineaidd
- Arall

Mae'r term 'grwpiau du ac ethnig lleiafrifol' yn diffinio'r holl grwpiau ac eithrio 'Prydeinig Gwyn'.

Er bod y cyfrifiad yn cynnwys rhai plant a phobl ifanc, defnyddiwn y termau dynion a merched drwy'r adroddiad hwn i gyfeirio at bobl o bob oedran - yn cynnwys plant, pobl ifanc a phobl hŷn.

Mae'r termau 'uwch' ac 'is', a ddefnyddir wrth wneud cymariaethau ethnig, yn cyfeirio at wahaniaethau ystadegol arwyddocaol ar y lefel 5%.

Gwybodaeth am anabledau dysgu

Mae'r termau *anabledau* dysgu ac *anawsterau* dysgu yn aml yn cael eu defnyddio'n rhyng-gyfnewidiol. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r term anabled, onid yw'n cyfeirio at ffynhonnell benodol lle defnyddir term arall. Mae papur gwyn yr Adran Iechyd *Gwerthfawrogi Pobl* ⁵, a gyhoeddwyd yn 2001, yn nodi strategaeth y Llywodraeth i gwrdd ag anghenion pobl ag anabledau dysgu. Mae'n disgrifio anabled dysgu fel lleihad sylweddol yn y gallu i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth ac i ddysgu sgiliau newydd, yn ogystal â lleihad yn y gallu i ymdopi'n annibynnol, a gafodd effaith barhaol hyd at ddatblygiad oedolaeth. Mae cyfrifiad *Cyfrif Pawb Fel Fi* yn defnyddio'r diffiniad hwn o anabledau dysgu. Yn ogystal, casglodd wybodaeth am gleifion mewnol ag anhwylder syndrom awtistiaeth, yn cynnwys syndrom Asperger.

Amcangyfrifir bod gan 210,000 o bobl anabledau dysgu difrifol a dwys yn Lloegr, a bod 65,000 ohonynt yn blant ac yn bobl ifanc, 120,000 yn oedolion o oedran gweithio, a 25,000 ohonynt yn bobl hŷn. Amcangyfrifir bod gan 1.2 miliwn o bobl yn Lloegr anabledau dysgu bychain neu gymedrol - cyfradd o un unigolyn ym mhob 40. Disgwylir i nifer y bobl ag anabledau difrifol a dwys godi 1% bob blwyddyn am nifer o resymau, yn cynnwys cynnydd mewn disgwyliad einioes a'r nifer cynyddol o blant ag anabledau o'r fath sy'n byw i fod yn oedolion. Mae'r holl grwpiau economaidd-gymdeithasol yn cynnwys cyfraneddau tebyg o bobl ag anabledau dysgu difrifol a dwys, ond mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig a threfol yn fwy tebygol o fod ag anabledau dysgu bychain neu gymedrol na rhai mewn ardaloedd eraill. ⁴

Yng Nghymru roedd nifer y bobl ag anabledau dysgu oedd wedi cofrestru gyda'r llywodraeth leol yn 2005 yn 13,500. ⁶

Mae disgwyliad einioes pobl ag anabledau dysgu yn llai na disgwyliad einioes pobl nad oes ganddynt anabledau, ac maent yn fwy tebygol o ddiodef o afiechyd meddwl, problemau iechyd tymor hir, epilepsi ac anabledau corfforol a synhwyraidd. ^{5,7}

Er gwaetha'r ffaith fod eu hanghenion gofal iechyd yn fwy, mae cydlyniant gofal ar gyfer pobl ag anabledau dysgu rhwng meddygon teulu, timau gofal iechyd sylfaenol a darparwyr gwasanaethau arbenigol fel arfer yn waelach nag yn achos pobl eraill, ac yn aml nid yw eu hanghenion gofal iechyd corfforol a meddyliol yn cael eu diwallu. Mae perygl fod y cyfle i gael gofal iechyd meddwl o ansawdd da dan fygythiad oherwydd y cydlyniant gwael sydd rhwng darparwyr gwasanaethau seiciatreg prif ffrwd a darparwyr gwasanaethau seiciatreg anabledau dysgu - mae'r gofal yn dameidiog ac yn cael ei ddarparu gan gyrff nad oes ganddynt fawr o ddealltwriaeth o'u hanghenion. ⁸

Mae adroddiad diweddar gan y Comisiwn Hawliau Anabled, *Triniaeth Gyfartal: Cau'r Bwlch* yn rhoi tystiolaeth newydd bwysig, sef fod pobl ag anabledau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o ddiodef afiechydon peryglus, datblygu cyflwr iechyd difrifol yn iau, a

marw o ganlyniad iddynt yn gynt na phobl eraill, ac eto maent hefyd yn llai tebygol o dderbyn rhai o'r triniaethau a'r archwiliadau iechyd na phobl eraill sy'n dioddef o'r un cyflwr ond nad ydynt yn dioddef o afiechyd meddwl neu anabledd dysgu.⁹

Mae Sefydliad Anabledau Dysgu Prydain yn amcangyfrif, er enghraifft, y bydd 50% o bobl ag anabledau dysgu ac ymddygiad heriol yn cael profiadau o ymyriadau corfforol, megis ataliaeth.⁷ Darganfu adroddiad yr Asiantaeth Genedlaethol dros Ddiogelwch Cleifion (NPSA) hefyd fod pobl ag anabledau dysgu a'r staff oedd yn gofalu amdanynt yn pryderu nad oedd ymyriadau corfforol mewn wardiau iechyd meddwl difrifol bob amser yn cydymffurfio â chanllawiau ymarfer da.

Mae gan bobl ag anabledau dysgu o gymunedau ethnig lleiafrifol fwy o broblemau fyth. Mae papur gwyn yr Adran Iechyd, *Gwerthfawrogi Pobl*⁵, a'i adroddiad, *Anawsterau Dysgu ac Ethnigrwydd*, yn disgrifio sut y mae eu hanghenion yn aml yn cael eu hesgeuluso (er bod yr olaf hefyd wedi darganfod enghreifftiau o ymarfer da). Nododd *Anawsterau Dysgu ac Ethnigrwydd* fod anfantais y mae pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol yn ei phrofi oherwydd eu hethnigrwydd (mewn addysg a gwaith, er enghraifft) yn cael ei chymhlethu gan yr anfantais a gânt oherwydd y nam sydd arnynt. Mae merched hyd yn oed dan fwy o anfantais fyth.

Yn ôl *Improving the Life Chances of Disabled People*, adroddiad gan Uned Strategaeth y Prif Weinidog, "erbyn 2025, bydd pobl anabl ym Mhrydain yn cael eu parchu a'u cynnwys fel aelodau cydradd o gymdeithas"¹² ac yn *Gwerthfawrogi Pobl*, dywedodd y Llywodraeth y byddai'n cynorthwyo'r rhai ag anabledau dysgu "i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel rhan o'u cymunedau lleol".⁵ Fodd bynnag, roedd yr olaf yn nodi problemau a sialensiau y dylid eu goresgyn, yn cynnwys:

- cydlyniant gwael rhwng gwasanaethau
- cynllunio gwael wrth gynorthwyo pobl ifanc anabl wrth iddynt dyfu'n oedolion
- cymorth annigonol i ofalwyr
- anghysondeb o ran gwariant a chyflwyno gwasanaethau
- partneriaeth wael rhwng darparwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol
- cyfleoedd gwaith cyfyngedig

- y dewis a'r rheolaeth gyfyngedig sydd gan bobl ag anableddau dysgu yng nghwrs eu bywyd

Disgrifiwyd problemau a sialensiau tebyg gan adroddiad diweddar gan Weithlu Anabledd Dysgu'r Adran Iechyd. Mynegodd bryder fod llawer o bobl ag anabledd dysgu yn cael eu hanfon i fyw ymhell o'u cartrefi ac nad oes gan lawer o ddarparwyr gwasanaethau anableddau dysgu y sgiliau i weithio â phobl o gymunedau ethnig lleiafrifol.

Cyrff cenedlaethol sy'n cydlynu'r cyfrifiad

Y Comisiwn Gofal Iechyd yw'r corff sy'n gwarchod iechyd yn Lloegr. Mae materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn aml yn destun pryder (gelwir y rhain hefyd yn atgyfeiriadau) a fydd yn dod i sylw'r Comisiwn Gofal Iechyd. Yn ystod 2005/2006 derbyniodd y Comisiwn 61 o atgyfeiriadau, ac roedd 18 o'r rhain yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl a 6 yn ymwneud â gwasanaethau anableddau dysgu.

Roedd rhai o'r atgyfeiriadau oedd yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl yn lleisio pryder ynglŷn â lefel y digwyddiadau difrifol oedd yn effeithio ar, neu a allai effeithio ar, ddiogelwch cleifion, y defnydd o neilltuaeth, materion yn ymwneud â meddyginiaeth a lefelau staffio isel. Roedd yr atgyfeiriadau oedd yn ymwneud ag anableddau dysgu yn cynnwys pryderon ynglŷn â gwarchod oedolion, defnydd anaddas o ataliaeth a safon gofal. Nid oedd yr un o'r pryderon hyn wedi eu cyfyngu i grwpiau ethnig arbennig.

Cynhaliodd y Comisiwn Gofal Iechyd a'i ragflaenydd, y Comisiwn Gwella Iechyd, bedwar ymchwiliad ffurfiol i fethiannau difrifol mewn gwasanaeth yn y gwasanaethau iechyd meddwl, a dau yn y gwasanaethau anableddau dysgu.

Yn 2005, cynhaliodd y Comisiwn ymchwiliad i drais mewn sefyllfaoedd iechyd meddwl, ac yn 2006 cyhoeddodd adroddiad cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddarganfyddiadau'r archwiliad. Hefyd yn 2006 cynhaliodd y Comisiwn adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol yn Lloegr, ac yn 2007 bydd yn adolygu gwasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol.

Mae gan y Comisiwn raglen eang, genedlaethol o arolygon yn ymwneud â phrofiadau cleifion, ac yn ddiweddar cyhoeddodd adroddiad yn astudio amrywiadau (gan gynnwys, yn ôl grŵp ethnig) yn eu profiadau o wasanaethau iechyd meddwl. Yn 2007 mae'r Comisiwn yn cynnal arolwg o brofiad pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol yn Lloegr, y pedwerydd arolwg o'i fath a gynhaliwyd ganddynt.

Mae'r Comisiwn Gofal Iechyd wedi ymrwmo i sicrhau fod gwasanaethau yn gwella i bawb sydd ag anableddau dysgu. Yn ddiweddar cwblhaodd y Comisiwn ymgynghoriad ar gyfer cynllun tair blynedd, a dderbyniodd ymateb positif gan bobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a gofawyr. Yn ystod y flwyddyn sy'n dod, bydd y Comisiwn yn trefnu 'adolygiad gan gydweithwyr' cenedlaethol gyda darparwyr gwasanaethau anableddau dysgu GIG a'r sector annibynnol, a'r bwriad fydd sicrhau fod y gwasanaethau hyn yn ddiogel ac o ansawdd uchel. Mae hefyd yn cydweithio'n glòs â'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, ymhlith pethau eraill, gyda golwg ar bryderon ynglŷn â chomisiynu gwasanaethau anableddau dysgu.

Awdurdod iechyd arbennig yw **Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl (MHAC)** a sefydlwyd dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae ganddo ddwy brif swyddogaeth statudol:

1. arolygu'r modd y mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gweithredu yn achos cleifion sydd wedi eu cadw, ac ymweld â'r cleifion hyn a'u cyfweld yn breifat
2. rheoli trefniadau ar gyfer ail farn yn achos darpariaethau cydsyniadol y Ddeddf (yn arbennig yn adran 58)

Mae MHAC yn ymweld â'r holl ysbytai ac unedau iechyd meddwl GIG ac annibynnol sy'n gofalu am gleifion sydd wedi eu cadw, ac yn nodi achosion difrifol o gamddefnyddio hawliau cleifion.

Rhoddodd MHAC bwyslais ychwanegol ar wasanaethau anabledau dysgu yn 2005/2006 o ganlyniad i'r darganfyddiadau gofidus ynglŷn â chleifion a gedwid yn anghyfreithlon. Ers ei Adroddiad Dwyflynyddol cyntaf ym 1985, mae MHAC wedi tynnu sylw'n gyson at dderbyniadau a chadwadau anghyfartal yn achos cleifion o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol. Yn ei adroddiad diweddaraf, *In Place of Fear*, mae'n galw sylw eto at yr anawsterau a wynebir gan gleifion o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol a phwysigrwydd mynd i'r afael â gwahaniaethu, datblygu gwasanaethau diwylliannol berthnasol ac addas, a defnyddio'r cynllun gweithredu *Delivering Race Equality*² fel sail ar gyfer cyflawni newid real a pharhaol.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol Iechyd Meddwl yn Lloegr (NIMHE) yn cefnogi gwelliannau yn achos iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl. Drwy weithio fel rhan o'r Bartneriaeth Gwella Gwasanaethau Gofal, mae'n helpu pob un sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl i weithredu newid positif, gan agor drws sy'n arwain at ddysgu a datblygu. Drwy gyfrwng wyth canolfan ddatblygu ranbarthol a rhaglenni gwaith cenedlaethol, mae NIMHE yn bwriadu rhoi polisi ar waith a chynorthwyo i ddatrys sialensiau lleol drwy ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl effeithiol.

Y Bartneriaeth Gwella Gwasanaethau Gofal

Sefydlodd y Bartneriaeth Gwella Gwasanaethau Gofal y tîm cymorth gwerthfawrogi pobl.

Maent yn gweithio gyda:

- byrddau partneriaeth anabledau dysgu
- pobl a sefydliadau lleol

Beth maent yn ei wneud?

- cynnig cymorth a chyngor i bobl sy'n gweithio i newid gwasanaethau
- helpu pobl i ddod at ei gilydd i siarad a rhannu syniadau
- gwrandio ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud
- dweud wrth y Llywodraeth beth mae'r bobl yn ei ddweud fel y gallant newid pethau

Darganfyddwch fwy ar wefan CSIP yn **www.csip.org.uk**

Data, dulliau dadansoddi a dehongli

Nid oedd gwahaniaethu rhwng cleifion oedd yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl a rhai oedd yn derbyn gwasanaethau anabledd dysgu yn rhywbeth syml, oherwydd mae rhai darparwyr gofal iechyd yn cynnig y ddau wasanaeth ac mae'r gwasanaethau'n gorgyffwrdd yn sylweddol.

Gofynnodd y cyfrifiad i ddarparwyr wahaniaethu rhwng y gwasanaethau drwy ddisgrifio'r wardiau lle roedd cleifion yn derbyn gofal fel rhai a oedd un ai yn 'darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn bennaf' neu rai a oedd yn 'darparu gwasanaethau anableddau dysgu yn bennaf'. (Cynhwyswyd wardiau sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn bennaf yng nghyfrifiad 2005). Mae gwahanu canlyniadau fel hyn, yn ôl y math o ward, yn gyfrwng cadarn y gallwn ei ddefnyddio i gymharu ein canlyniadau yn 2006 â rhai 2005 a hefyd mae'n sicrhau na chafodd yr un claf ei gyfrif ddwy waith.

Mae'n bwysig nodi, ac mae'r data yn dangos, fodd bynnag, nad yw'r holl gleifion ar y 'wardiau iechyd meddwl yn bennaf' yno, oherwydd bod ganddynt broblem iechyd meddwl ac nad yw'r holl gleifion mewn 'wardiau anableddau dysgu yn bennaf' yno oherwydd anabledd dysgu. Mae gan rai o'r cleifion ar wardiau iechyd meddwl anabledd dysgu neu anhwylder syndrom awtistiaeth, yn cynnwys syndrom Asperger, ac mae gan rai cleifion ar wardiau anableddau dysgu broblem iechyd meddwl.

Rhoddir y dulliau ystadegol a ddefnyddiwyd i ddadansoddi data yn yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

Y sylw a roddwyd i sefydliadau anableddau dysgu

Nid oedd cyfrifiad 2006 yn cynnwys yr holl ddarpariaethau gwasanaethau anableddau dysgu annibynnol. Dim ond y sefydliadau hynny a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Gofal Iechyd dan Adran 2 y Ddeddf Safonau Gofal (2000), i ddarparu gwasanaethau anableddau dysgu i gleifion mewnol, a gynhwyswyd gennym ni - nid cartrefi gofal a gofrestrwyd gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn unig.

Roedd hi'n angenrheidiol darganfod meini prawf cymhwyster cyfatebol yn achos sefydliadau GIG, oedd yn waith llawn her oherwydd yn GIG ceir continwwm, o wasanaethau cleifion mewnol hyd at gartrefi cofrestredig a chartrefi cynaledig. Gall pob un o'r rhain fod â rhyw gysylltiadau â GIG, un ai yn uniongyrchol neu drwy staff wedi eu secondio. Yn achos adrannau GIG o'r fath a oedd wedi eu cofrestru fel cartrefi gofal dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac yn cael eu rheoli gan y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol (CSCI), yn hytrach na chan y Comisiwn Gofal Iechyd, nid oeddynt yn gymwys i'w cynnwys yn y cyfrifiad.

Dehongli'r canlyniadau

Fel sy'n digwydd mewn unrhyw astudiaeth, mae ein canlyniadau yn cynnwys rhai cafeatau, a dylid eu dehongli yn y cyd-destun canlynol:

- Fel yn 2005, defnyddiwyd amcangyfrifon poblogaeth cyfrifiad 2001 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i ddeillio'r cyfraddau derbyn. Mae'r ONS yn dweud mai brasamcanion yw'r amcangyfrifon hyn a'u bod yn dueddol o roi amcangyfrif rhy isel o niferoedd y bobl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol. Yn ogystal, mae amcangyfrifon 2001 bellach yn bum mlwydd oed, ac ers hynny mae cynnydd sylweddol wedi bod ym maint poblogaethau duon ac ethnig lleiafrifol, sy'n golygu fod y cyfraddau derbyn a ddangosir ar eu cyfer yn yr adroddiad hwn yn uwch na'r disgwyl. Rhoddir mwy o ystyriaeth i'r materion hyn yn adran y canlyniadau.
- Nid yw'r canlyniadau wedi eu haddasu ar gyfer diagnosis a gwybodaeth glinigol arall, felly **gallai** unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau ethnig yn natur a difrifoldeb yr afiechyd neu'r anabledd gael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau.
- Nid yw'r data a gasglwyd ar gyfer y cyfrifiad yn caniatáu dadansoddiad sy'n rheoli gyda golwg ar ffactorau economaidd-gymdeithasol megis tlodi, diweithdra ac anheddau canol-dinas, sy'n fwy cyffredin yn achos cymunedau du ac ethnig lleiafrifol. Yn yr un modd nid oedd yn bosibl cymryd ffactorau cymdeithasol i ystyriaeth, ffactorau megis statws priodasol, byw ar ei ben/phen ei hun, wedi ei wahanu/gwahanu oddi wrth un neu'r ddau riant neu ddiffyg rhwydweithiau cymdeithasol. Gwyddys bod ffactorau economaidd-gymdeithasol a chymdeithasol yn gysylltiedig â'r risg o afiechyd meddwl, ac y gallant effeithio ar natur rhyngweithio cleifion â darparwyr gwasanaethau.
- Cynllun cyfrif un diwrnod yw'r cyfrifiad a fwriadwyd i ddarganfod niferoedd a chyfansoddiad ethnig cleifion mewnol. Mae'n werthfawr gan ei fod yn rhoi llun sydyn fesul blwyddyn o boblogaeth gyfan cleifion mewnol. Fodd bynnag, oherwydd ei union natur, ni all roi darlun ar gyfer y flwyddyn gyfan.
- Mewn rhai achosion mae'r niferoedd yn achos rhai grwpiau ethnig mor fychan fel ei bod yn amhosibl dangos gwahaniaethau yn ystadegol o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol.

Canlyniadau: iechyd meddwl

Cawsom wybodaeth am 32,023 o gleifion mewnol ar wardiau iechyd meddwl 238 o sefydliadau gofal iechyd GIG ac annibynnol yng Nghymru a Lloegr.

Roedd nifer y cleifion mewnol oddeutu 5% yn is nag yn 2005 (33,785 o gleifion mewnol yn 2005), ond roedd nifer y darparwyr gofal iechyd ychydig yn uwch (roedd 207 ohonynt yn 2005). Dychwelwyd gwybodaeth gan bob un o'r 108 ymddiriedolaeth GIG oedd yn gymwys i gymryd rhan yn y cyfrifiad, ac o'r 146 darparwr annibynnol oedd yn gymwys, dychwelwyd gwybodaeth gan 130 ohonynt. Rhwng 2005 a 2006, roedd cynnydd bychan, o 10% i 11%, yng nghyfrannedd y cleifion mewnol oedd yn derbyn gwasanaethau gan ddarparwyr annibynnol.

Ceir nifer o esboniadau **posibl** pam y cofnodwyd llai o gleifion mewnol yng nghyfrifiad 2006 nag yng nghyfrifiad 2005. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Mae polisi'r Llywodraeth yn annog symud oddi wrth ofal cleifion mewnol a thuag at ofal cymunedol. Dengys ffigurau'r Adran Iechyd fod oddeutu 600 o dimau datrys argyfwng a thimau hybu hyder allanol (*assertive outreach*) newydd wedi eu sefydlu fel rhan o strategaeth i drin mwy o gleifion iechyd meddwl yn eu cartrefi eu hunain
- efallai bod cyfyngiadau ariannol a wynebid gan ymddiriedolaethau GIG yn ystod 2005/2006 wedi effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau cleifion mewnol
- efallai hefyd bod rheswm ystadegol am y nifer is o gleifion yn 2006: mae gan rai cleifion mewnol afiechyd meddyliol ac anabledd dysgu, felly efallai bod cyfrifiad 2005 wedi cynnwys rhai cleifion mewnol ag anabledau dysgu

Dengys Tabl 1 nifer y darparwyr a'r cleifion mewnol yng nghyfrifiad 2006 a chyfrifiad 2005.

Tabl 1: Nifer darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl a chleifion mewnol.						
Darparwr	Cyfrifiad 2006			Cyfrifiad 2005		
	Nifer y darparwyr	Nifer y cleifion mewnol	% cleifion mewnol	Nifer y darparwyr	Nifer y cleifion mewnol	% cleifion mewnol
GIG (Lloegr)	97	26,565	83.0	92	28,590	84.6
Annibynnol (Lloegr)	125	3,341	10.4	98	3,078	9.1
GIG (Cymru)*	11	1,962	6.1	10	1,939	5.7
Annibynnol (Cymru)	5	155	0.5	7	178	0.5
CYFANSWM	238	32,023	100	207	33,785	100

* Mae cyfrifiad 2006 yn cynnwys data ar gyfer Powys, a gafodd ei hepgor yn anfwriadol o gyfrifiad 2005.

Ethnigrwydd


Roedd gwybodaeth am ethnigrwydd ar gael yn achos 98.9% o gleifion mewnlol, sy'n debyg i'r cofnod ethnigrwydd o 98.7% yn 2005. O'r cleifion mewnlol hyn, roedd 79% yn Brydeinwyr Gwyn, 9% o grwpiau Du neu Gymysg Gwyn/Du, 3% o grwpiau De Asiaidd, 2% yn Wyddelod Gwyn, 4% yn dod o grwpiau Gwyn Arall, a 2% yn dod o grwpiau ethnig eraill (yn cynnwys Tsieineaidd). Dangosai hyn fod 21% o'r holl gleifion mewnlol y gwyddys eu hethnigrwydd (yn debyg i'r 20% yn 2005) yn perthyn i grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, a ddiffinnir fel yr holl grwpiau sydd heb fod yn Brydeinwyr Gwyn (h.y. mae'r grwpiau Gwyddelig Gwyn a Gwyn Arall yn cael eu cyfrif ymysg y grwpiau du ac ethnig lleiafrifol).

Cofnododd cyfrifiad 2006 gyfrannedd is o gleifion mewnlol o'r grwpiau Prydeinig Gwyn a Gwyddelig Gwyn nag yn 2005, a chyfrannedd uwch o'r grŵp Gwyn Arall. Arhosodd cyfranneddau grwpiau ethnig eraill bron yn union yr un fath ag yn 2005. Dengys Tabl 2 grŵp ethnig cleifion mewnlol yng nghyfrifiad 2006 a chyfrifiad 2007.

Tabl 2: Cleifion mewnlol iechyd meddwl yn ôl grŵp ethnig

Gŵp ethnig	Cyfrifiad 2006		Cyfrifiad 2005		Gwahaniaeth % niferoedd rhwng 2005/ 2006	Gwahaniaeth % o safbwynt cyfansoddiad ethnig
	%	Nifer	%	Nifer		
Prydeinig Gwyn	79.5	25,170	80.3	26,762	-5.9	-0.8
Gwyddelig Gwyn	1.8	582	2.2	727	-19.9	-0.3
Gwyn Arall	3.8	1,210	3.2	1,055	14.7	0.7
Caribiaidd Gwyn a Du	0.9	287	0.8	255	12.5	0.1
Affricanaidd Gwyn a Du	0.3	102	0.2	71	43.7	0.1
Gwyn ac Asiaidd	0.3	109	0.3	104	4.8	0
Cymysg Arall	0.5	173	0.5	167	3.6	0
Indiaidd	1.3	411	1.3	434	-5.3	0
Pacistanaid	1.1	349	1.0	325	7.4	0.1
Bangladeshiaidd	0.5	158	0.5	153	3.3	0
Asiaidd Arall	0.8	262	0.8	264	-0.8	0
Caribiaidd Du	4.0	1,264	4.1	1,369	-7.7	-0.1
Affricanaidd Du	2.1	652	1.9	645	1.1	0.1
Du Arall	1.7	535	1.7	569	-6.0	0
Tsieineaidd	0.2	78	0.2	81	-3.7	0
Arall	1.1	338	1.1	357	5.3	0
CYFANSWM	100	32,023	100	33,828	-5.4	-

Fel yn 2005, roedd bron i 70% o gleifion mewnol o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol mewn 23 o'r 238 sefydliad a gymerodd ran yn y cyfrifiad. Roedd y 30% oedd yn weddill wedi eu gwasgaru dros 182 o sefydliadau a chanddynt lai na 50 o gleifion mewnol yr un o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, ac nid oedd gan 27 sefydliad arall gleifion mewnol o'r grwpiau hyn o gwbl. Dengys Ffigur 1 ddisbarthiad cleifion ethnig lleiafrifol dros ystod y darparwyr.



Nodi Ethnigrwydd

Nododd 75% o gleifion mewnol beth oedd eu grŵp ethnig ac ni nodwyd hyn gan 25% ohonynt (cynnydd o'i gymharu â 23% yn 2005). Yn yr achosion lle na nododd cleifion beth oedd eu grŵp ethnig, roedd staff neu berthnasau yn gwneud hyn ar eu rhan (18% a 6% yn eu trefn). Mae'n bosibl eu bod wedi cam-nodi ethnigrwydd mewn rhai achosion, ac y gallai'r cam-nodi hwn amrywio yn ôl grŵp ethnig.

Roedd cyfrannedd y cleifion mewnol a nododd eu grŵp ethnig yn amrywio o 68% ymysg y grŵp Bangladeshiaidd, i 84% ymysg y grŵp Asiaidd Arall. Roedd achosion o staff yn nodi ethnigrwydd ar ei uchaf ymysg cleifion mewnol o'r grwpiau Bangladeshiaidd (26%) a Gwyn Arall (22%). Roedd achosion o berthnasau yn nodi ar ei uchaf ymysg y tri grŵp Gwyn, yn ogystal â'r grwpiau Bangladeshiaidd a Tsieineaidd (oddeutu 6% ym mhob achos).

Oedran a rhyw

Nodwyd oedran mewn 98% o achosion. O blith y rhai a roddodd wybodaeth, roedd 2% (558) dan 18 oed, a thraean (10,334) yn 65 oed neu hŷn.

Roedd cyfrannedd y bobl ifanc yn is ymysg cleifion mewnol o'r grwpiau Prydeinig Gwyn, Gwyddelig Gwyn a Gwyn Arall nag ymysg grwpiau ethnig eraill.

Fel yn 2005, roedd 55% o gleifion mewnol yn ddyinion. Yn y grwpiau Prydeinig Gwyn, Gwyddelig Gwyn, Gwyn Arall a Tsieineaidd, roedd cyfraneddau tebyg o ddyinion a merched. Mewn grwpiau ethnig eraill, roedd cyfraneddau sylweddol uwch yn ddyinion, a gyrhaeddai oddeutu 75% yn y grwpiau Du Arall a Chymysg Gwyn/Asiaidd. Dengys Tabl 3 gyfansoddiad cleifion mewnol o ran oedran a rhyw.

Grŵp ethnig	Oedran (%)				Rhyw (%)	
	0-17	18-24	25-49	50+	Dynion	Merched
Prydeinig Gwyn	1.7	6.6	37.2	54.5	52.9	47.1
Gwyddelig Gwyn	0.4	3.7	31.4	64.5	55.1	44.9
Gwyn Arall	0.8	6.0	41.9	51.3	53.9	46.1
Caribiaidd Gwyn a Du	3.2	17.9	67.5	11.4	70.6	29.4
Affricanaidd Gwyn a Du	4.0	15.8	67.3	12.9	61.8	38.2
Gwyn ac Asiaidd	3.7	13.9	70.4	12.0	75.2	24.8
Cymysg arall	5.3	18.8	60.0	15.9	69.9	30.1
Indiaidd	1.5	7.7	60.4	30.4	63.3	36.7
Pacistanaidd	5.2	13.5	63.5	17.8	70.2	29.8
Bangladeshiaidd	3.9	17.4	62.6	16.1	70.3	29.7
Asiaidd Arall	2.3	10.5	62.5	24.6	65.1	34.9
Caribiaidd Du	0.8	7.6	64.7	26.9	69.2	30.8
Affricanaidd Du	2.0	16.3	70.5	11.2	69.0	31.0
Du Arall	2.4	12.8	76.5	8.3	74.2	25.8
Tsieineaidd	3.9	13.2	57.9	25.0	48.7	51.3
Arall	0.9	14.3	54.8	30.1	68.9	31.1
CYFANSWM	1.8 (n=558)	7.4 (n=2,325)	41.5 (n=13,088)	49.4 (n=15,596)	55.3 (n=17,698)	44.7 (n=14,281)

Iaith a chrefydd

Fel yn 2005, nododd 5% o gleifion mewnol nad Saesneg oedd eu mamiaith. Y grwpiau â'r cyfraneddau uchaf o bobl nad oedd Saesneg yn famiaith iddynt oedd y grwpiau Bangladeshiaidd (54%), Tsieineaidd (51%), Arall (44%) a Phacistanaidd (41%).

Dywedodd oddeutu 2% o gleifion mewnol (641) fod arnynt angen cyfieithydd. O'r rhain roedd 21% (132) yn Brydeinwyr Gwyn, er na wyddom pa grŵp mae hyn yn ei gynrychioli. Roedd y cyfraneddau oedd yn dymuno cael cyfieithydd ar eu huchaf ymysg y grŵp Tsieineaidd (29%), ac yna'r grwpiau Bangladeshiaidd (28%), Arall (19%) ac Asiaidd Arall (14%). Roedd nifer y cleifion mewnol a fynnai'r gwasanaethau hyn ym mhob grŵp ethnig yn llai na 100, ac eithrio yn achos y grŵp Gwyn Arall (lle roedd 140 ohonynt eisiau cyfieithydd). Dengys Tabl 4 gyfraneddau'r cleifion â mamiaith arall heblaw Saesneg a'r rhai oedd eisiau gwasanaethau cyfieithu.

Tabl 4: Canran cleifion mewnol gydag anghenion iaith ac anghenion cyfieithu		
Grŵp ethnig	% â mamiaith heblaw Saesneg	% eisiau cyfieithydd
Prydeinig Gwyn	1.5	0.5
Gwyddelig Gwyn	1.5	0.9
Gwyn Arall	27.8	11.6
Caribiaidd Gwyn a Du	2.1	0.0
Affricanaidd Gwyn a Du	9.8	3.9
Gwyn ac Asiaidd	4.6	2.8
Cymysg arall	14.5	4.6
Indiaidd	33.8	11.9
Pacistanaidd	40.7	9.7
Bangladeshiaidd	53.8	28.5
Asiaidd Arall	38.2	13.7
Caribiaidd Du	4.2	1.3
Affricanaidd Du	24.2	8.9
Du Arall	10.1	4.1
Tsieineaidd	51.3	29.5
Arall	44.4	18.6
CYFANSWM	5.4 (n=1720)	2.0 (n=641)

Dywedodd 14% o gleifion mewnol nad oedd ganddynt grefydd a ni chafodd un ei nodi gan 11% arall. Gyda'i gilydd, roedd y cyfraneddau hyn ar eu huchaf ymysg y grŵp Tsieineaidd (40%), ac yna'r grwpiau Caribiaidd Cymysg Gwyn/Du (37%), Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du (31%) a Du Arall (30%). Roeddynt isaf ymysg y grwpiau Gwyddelig Gwyn (12%) ac Asiaidd (llai na 12%). Dengys Tabl 5 grefydd cleifion mewnol.

Tabl 5: Crefydd cleifion mewnol yn ôl grŵp ethnig

Grŵp ethnig	Crefydd (%)								
	Dim	Cristnogaeth	Bwdhaeth	Hindweth	Iddewiaeth	Mwslemiaeth	Sikhiaeth	Unrhyw grefydd arall	Heb nodi
Prydeinig Gwyn	14.2	65.7	0.4		0.7	0.2	0.1	7.6	11.0
Gwyddelig Gwyn	6.0	82.0	0.7		0.3	1.0		3.8	6.2
Gwyn Arall	12.1	58.7	0.7	0.1	2.8	4.3		9.2	12.1
Caribiaidd Gwyn a Du	21.6	54.0		0.3	0.3	3.1		5.9	14.6
Affricanaidd Gwyn a Du	18.6	48.0			2.0	7.8		11.8	11.8
Gwyn ac Asiaidd	18.3	45.9	1.8	1.8		16.5		7.3	8.3
Cymysg arall	18.5	44.5	2.9	0.6	1.2	9.8		10.4	12.1
Indiaidd	3.9	11.4	0.7	31.4		19.0	24.6	3.4	5.6
Pacistanaid	4.6	4.0		1.4	0.3	79.9	1.1	4.0	4.6
Bangladeshiaidd	2.5	3.2	0.6	3.2		81.0	0.6	2.5	6.3
Asiaidd Arall	6.9	23.7	5.0	16.8	0.4	30.9	7.6	3.8	5.0
Caribiaidd Du	14.2	59.2	0.4	0.1	0.4	2.2		12.1	11.3
Affricanaidd Du	12.0	51.1	0.5			20.9		7.1	8.6
Du Arall	16.4	48.8	0.4		0.2	12.5	0.2	7.1	14.4
Tsieineaidd	28.2	26.9	21.8			1.3		10.3	11.5
Arall	10.9	33.4	3.3	1.2	2.1	27.8		9.5	11.8
CYFANSWM	13.6 (n=4,366)	61.7 (n=19,772)	0.6 (n=186)	0.6 (n=201)	0.8 (n=246)	3.3 (n=1,062)	0.5 (n=155)	7.8 (2,487)	11.1 (3,537)

Tueddfryd rhywiol

Yn 2006, holwyd y cleifion mewnol oedd yn 16 oed neu hŷn (cyfanswm o 31,809 i gyd) ynglŷn â'u tueddfryd rhywiol. O'r rhain, gwrthododd 19% ateb. Nid oedd y canlyniadau yn ddilys yn achos 2% o gleifion mewnol.

O'r rhai a atebodd y cwestiwn, dywedodd 90% eu bod yn heterorywiol, dywedodd 1% hoyw/lesbiaidd, dywedodd 1% deurywiol, a dywedodd 7% 'arall'. Mae'r categori 'arall' yn cynnwys

ddim yn gwybod', 'trawsrywiol' (transgender), 'ddim eisiau ateb ond ddim eisiau cofnod o'r ffaith fy mod yn gwrthod', a 'thueddfryd rhywiol arall'. Mae'r 7% yn y categori 'arall' bron yn sicr hefyd yn cynnwys cleifion mewnol na chafodd eu holi ynglŷn â'r mater hwn gan y staff, oherwydd nid oedd gan 144 o ddarparwyr gleifion mewnol a oedd wedi eu dynodi fel hoyw/lesbiaidd neu ddeurywiol o gwbl (Cafwyd gwrthwynebiad gan rai darparwyr i gasglu'r wybodaeth hon.)

Yn achos y 149 sefydliad a ddychwelodd gofnodion oedd yn disgrifio rhai o'u cleifion fel hoyw/lesbiaid neu ddeurywiol, roedd cyfrannedd y cleifion mewnol dan sylw yn amrywio o lai na 1% i fwy na 10%, gyda chanran cyffredinol o 2%. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfranneddau amcangyfrifedig o bobl hoyw/lesbiaidd neu ddeurywiol yn y boblogaeth yn gyffredinol (mae'r amcangyfrifon hyn yn amrywio o 5% i 7%).^{19,20} Roedd niferoedd y bobl nad oedd yn heterorywiol mewn grwpiau ethnig lleiafrifol yn isel iawn, felly nid oedd yn bosibl cymharu'r canlyniadau rhwng grwpiau.

Anabledd

Dywedodd oddeutu 11% (3,561) o gleifion mewnol fod ganddynt un neu fwy o anableddau. O'r rhain, roedd 5% yn ddall, 14% yn fyddar, roedd gan 21% anabledd dysgu, roedd gan 4% anhwylder syndrom awtistiaeth ac roedd 43% yn defnyddio cadair olwynion. Roedd gan yr 13% oedd yn weddill fwy nag un anabledd.

Roedd cyfrannedd y cleifion mewnol ag anabledd ar ei uchaf ymysg cleifion mewnol Prydeinig Gwyn (12%), sy'n ddisgwyliedig o ystyried eu proffil oedran hŷn. Roedd niferoedd y cleifion ethnig lleiafrifol a nododd anabledd yn isel iawn, felly, unwaith eto, nid oedd yn bosibl cymharu cyfraddau anabledd gwahanol grwpiau ethnig.

Cyfraddau derbyn

Rhoddir y cyfraddau derbyn yn Atodiad B, Tabl 1.

Roedd cyfraddau derbyn dynion o grwpiau ethnig Prydeinig Gwyn, Indiaidd a Tsieineaidd yn is na'r cyfartaledd, o 14%, 21% a 46% yn eu trefn. Roedd cyfraddau derbyn yn uwch na'r cyfartaledd yn achos dynion o'r holl grwpiau ethnig eraill. Fel yn 2005, roeddynt yn arbennig o uchel yn achos dynion o grwpiau Du a Chymysg Gwyn/Du, lle roedd y cyfraddau deirgwaith neu fwy yn uwch na'r cyfartaledd. Hefyd, fel yn 2005, roedd y gyfradd uchaf ymysg dynion o'r grŵp Du Arall - 18 gwaith yn uwch na'r cyfartaledd.

Dangosai cyfraddau derbyn merched batrwm tebyg: roedd cyfraddau merched o'r grwpiau ethnig

Prydeinig Gwyn ac Indiaidd yn is na'r cyfartaledd, o 7% a 29% yn eu trefn. Fel yn 2005, roedd cyfraddau yn arbennig o uchel yn achos merched o'r grwpiau Du a Chymysg Gwyn/Du - ddwywaith neu fwy yn uwch na'r cyfartaledd - â'r uchaf ymysg merched o'r grŵp Du Arall (naw gwaith yn fwy na'r cyfartaledd).

Pan gyfunwyd cyfraddau derbyn y ddau ryw gennym, roedd y rhai o'r grwpiau Prydeinig Gwyn, Indiaidd a Tsieineaidd yn is na'r cyfartaledd, ac roedd y rhai ar gyfer yr holl grwpiau ethnig eraill yn uwch na'r cyfartaledd. Fel yn 2005, roeddynt yn arbennig o uchel yn achos y grwpiau Du a Chymysg Gwyn/Du, gyda chyfraddau deirgwaith neu fwy yn uwch na'r cyfartaledd, a'r uchaf - 14 gwaith yn uwch na'r cyfartaledd - yn achos y grŵp Du Arall.

Mae'r patrymau derbyn hyn yn debyg iawn i'r rhai a nodwyd gennym yn 2005, gyda dau eithriad:

- roedd cyfraddau derbyn ymysg y grŵp Gwyddelig Gwyn yn uwch na'r cyfartaledd yn y ddwy flwyddyn, ond ychydig yn llai yn 2006
- roedd cyfraddau derbyn ymysg y grwpiau Gwyn Arall ac Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du yn uwch na'r cyfartaledd yn y ddwy flwyddyn, ond ychydig yn fwy yn 2006 nag yn 2005

Newidiadau mewn amcangyfrifon poblogaeth

Cyfrifasom y cyfraddau derbyn a nodir uchod gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth cyfrifiad 2001 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Fodd bynnag, nid yw'r amcangyfrifon hynny yn ystyried y cynnydd sylweddol yn niferoedd y bobl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru a Lloegr ers 2001. Yn ddiweddar cynhyrnod yr ONS amcangyfrifon poblogaeth wedi eu diweddarau, yn ôl grŵp ethnig, ar gyfer 2003, sy'n amcanu adlewyrchu'r newidiadau hyn.²¹ Mae'r ONS yn disgrifio'r amcangyfrifon hyn fel rhai 'arbrofol', a gallent gynnwys cyfeiliornadau bychain.

Er mai ar gyfer Lloegr yn unig y mae rhain ar gael, ac er nad ydynt yn adlewyrchu'r newidiadau demograffig rhwng 2003 a 2006, rydym wedi defnyddio'r amcangyfrifon 2003 hyn i ail-gyfrifo cyfraddau derbyn 2006 ar gyfer Lloegr. Mae Tabl 6 yn cymharu'r canlyniadau gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth 2001 yr ONS â rhai yn defnyddio'r amcangyfrifon 2003.

Mae defnyddio amcangyfrifon 2003 yn cynyddu'r cyfraddau derbyn yn achos grwpiau Prydeinig Gwyn a Gwyddelig Gwyn, ac yn eu lleihau yn achos yr holl grwpiau ethnig eraill. Un newid ystadegol arwyddocaol yw bod cymhareb derbyn y grŵp Pacistanaidd yn uwch na'r cyfartaledd wrth ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth 2001, ond nid yw'n ddim gwahanol i'r cyfartaledd wrth ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth 2003. Er hynny, erys y patrwm cyffredinol yr un fath waeth pa amcangyfrifon a ddefnyddiwn, rhai 2001 neu rai 2003: erys cyfraddau derbyn grwpiau Du a Chymysg Gwyn/Du yn eithriadol o uchel - mwy na 10 gwaith yn uwch na'r cyfartaledd yn achos y grŵp Du Arall - a hyd at deirgwaith yn uwch yn achos y grwpiau sy'n weddill.

Tabl 6: Cyfraddau derbyn yn ôl grŵp ethnig ar gyfer Lloegr

Grŵp ethnig	Gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth 2003 yr ONS				Gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth 2001 yr ONS			
	Cyfradd safonedig derbyn	95% cyfwng hyder		Arsylwyd	Cyfradd safonedig derbyn	95% cyfwng hyder		Arsylwyd
		Is	Uwch			Is	Uwch	
Prydeinig Gwyn	90	89	91	22,836	88	87	90	22,836
Gwyddelig Gwyn	121	111	132	531	119	109	130	531
Gwyn Arall	134	126	142	1,133	146	138	155	1,133
Caribiaidd Gwyn a Du	393	347	442	271	445	394	501	271
Affricanaidd Gwyn a Du	313	255	380	101	378	308	459	101
Gwyn ac Asiaidd	146	119	176	106	169	139	205	106
Cymysg arall	264	225	307	166	307	262	357	166
Indiaidd	69	63	76	399	76	69	84	399
Pacistanaid	106	95	117	344	116	104	129	344
Bangladeshiaidd	125	106	147	153	143	121	167	153
Asiaidd Arall	170	150	193	251	202	177	228	251
Caribiaidd Du	391	370	414	1,244	411	389	435	1,244
Affricanaidd Du	231	214	250	635	298	275	322	635
Du Arall	1,251	1,147	1,363	527	1,402	1,285	1,527	527
Tsieineaidd	48	37	60	73	63	50	80	73
Arall	222	199	248	323	297	266	331	323
CYFANSWM	100			29,093	100			29,093

Ffynhonnell atgyfeirio

Gall pobl gael eu hatgyfeirio i wasanaethau gofal iechyd mewn nifer o ffyrdd, a defnyddiodd cyfrifiad 2006 ddisbarthiad manylach o'r ffynonellau atgyfeirio hyn na chyfrifiad 2005. Er enghraifft, cynhwyswyd gennym atgyfeiriadau gan dimau iechyd meddwl carchardai a chymunedau. Mae manylion y canlyniadau i'w cael yn: www.healthcarecommission.org.uk/countmein

Fodd bynnag, ymddengys yn aml mai'r timau iechyd meddwl cymunedol sy'n argymhell atgyfeiriadau i ofal cleifion mewnol, yn hytrach na'r ffynhonnell wreiddiol, felly gallai'r canlyniadau ar gyfer atgyfeiriadau gan dimau iechyd meddwl cymunedol gynnwys atgyfeiriadau gan feddygon teulu ac adrannau damweiniau ac achosion brys (A&E), ac efallai y bydd angen eu dehongli ymhellach. Hefyd, atgyfeiriwyd bron i 40% o gleifion mewnol gan ofal trydyddol, ac yn yr achosion hyn, nid oedd gwybodaeth ynglŷn â'r ffynhonnell atgyfeirio wreiddiol ar gael. Yn achos 5% (1,679) o'r holl gofnodion, roedd y ffynhonnell wreiddiol un ai'n annilys, ar goll neu yn anhysbys.

Oherwydd y newidiadau hyn mewn dosbarthiad, nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau manwl â 2005. Fodd bynnag, gallwn gyfeirio at elfennau tebyg yn achos y ddwy flwyddyn yma, megis cyfraddau isel o atgyfeiriadau gan feddygon teulu a chyfraddau uchel gan y system cyfiawnder troseddol ymysg cleifion mewnlol o'r grwpiau Du.

Atgyfeirio gan y claf ei hun, gofalwr neu gyflogwr

O'r 2% (722) o'r cleifion mewnlol a gyfeiriwyd i'r ysbty, roedd bron y cyfan wedi eu cyfeirio gan ofalwr, neu yn anaml iawn, gan gyflogwr. Yr unig wahaniaethau rhwng grwpiau ethnig oedd y cyfraddau uwch na'r cyfartaledd o atgyfeiriadau o'r fath ymysg y grŵp ethnig Arall, a'r gyfradd uwch na'r cyfartaledd ymysg merched o'r grŵp Du Arall. Rhoddir y cyfraddau atgyfeirio hyn yn Atodiad B, Tabl 2.

Fodd bynnag, gallwn wneud arsylwadau pellach os ydym yn archwilio hunan-gyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan ofalwyr ar wahân. Roedd cyfraddau hunan-gyfeiriadau, o'u harchwilio ar wahân, yn uwch na'r cyfartaledd ymysg grwpiau Gwyddelig Gwyn ac Arall, ac roedd cyfraddau atgyfeiriadau gan ofalwyr yn uwch na'r cyfartaledd ymysg grwpiau Indiaidd a Phacistanaid. Ond mae'r darganfyddiadau hyn yn seiliedig ar niferoedd bychain o achosion yn unig.

Atgyfeiriadau gan feddygon teulu

Atgyfeiriwyd 15% (4,601) o gleifion mewnlol gan feddyg teulu. Roedd cyfraddau ymysg y grŵp Prydeinig Gwyn 5% yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd gan y tri grŵp Du - Caribiaidd Du, Affricanaidd Du a Du Arall - gyfraddau rhwng 35% a 53% yn is na'r cyfartaledd. Roedd gan y grŵp Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du a'r grŵp Bangladeshaidd hefyd gyfradd isel o atgyfeiriadau gan feddygon teulu, ac roedd yr un peth yn wir am ddynion o grwpiau Gwyddelig Gwyn a Phacistanaid. Rhoddir cyfraddau atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn Atodiad B, Tabl 3.

Atgyfeiriadau gan adrannau damweiniau ac achosion brys (A&E)

Atgyfeiriwyd 5% (1,574) o gleifion mewnlol gan adrannau damweiniau ac achosion brys. Roedd cyfradd y grŵp Prydeinig Gwyn 7% yn is na'r cyfartaledd gyda golwg ar y math hwn o atgyfeiriadau, tra oedd grwpiau Gwyddelig Gwyn, Gwyn Arall a Bangladeshaidd yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio yn y ffordd yma, ac roedd yr un peth yn wir am ferched o grwpiau Affricanaidd Du, Tsieineaidd ac Asiaidd Arall. Mae rhai o'r arsylwadau hyn yn seiliedig ar niferoedd bychain o achosion.

Atgyfeiriadau gan wasanaethau cymdeithasol

Atgyfeiriwyd 3% (909) o gleifion mewnlol drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd cyfraddau atgyfeiriadau o'r fath yn uwch na'r cyfartaledd ymysg y grwpiau Gwyn Arall ac Indiaidd, ac ymysg merched o'r grŵp Caribiaidd Cymysg Gwyn/Du. Unwaith eto, mae rhai o'r arsylwadau hyn yn seiliedig ar nifer bychan o achosion.

Atgyfeiriadau gan dimau iechyd meddwl cymunedol

Atgyfeiriwyd bron i chwarter (24%) (7,154) y cleifion mewnlol gan dimau iechyd meddwl cymunedol. Roedd cyfraddau atgyfeiriadau o'r fath yn uwch na'r cyfartaledd ymysg y grwpiau Prydeinig Gwyn a Phacistanaid. Ymysg y tri grŵp Du - Caribiaidd Du, Affricanaidd Du a Du Arall - roedd y cyfraddau hyn rhwng 28% a 47% yn is na'r cyfartaledd. Rhoddir y cyfraddau atgyfeiro yn Atodiad B, Tabl 4.

Atgyfeiriadau drwy'r system cyfiawnder troseddol

Atgyfeiriwyd 10% o gleifion mewnlol (2,882) drwy'r system cyfiawnder troseddol. Roedd pobl o'r grŵp Prydeinig Gwyn 11% yn llai tebygol na'r cyfartaledd o gael eu hatgyfeirio yn y ffordd yma, tra oedd cyfraddau grwpiau Caribiaidd Du, Affricanaidd Du a Du Arall yn uwch na'r cyfartaledd (o 48%, 45% a 41% yn eu trefn). Roedd cyfraddau hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ymysg y grŵp Caribiaidd Cymysg Gwyn/Du (o 36%), y grŵp Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du (o 69%) a'r grŵp Gwyn Arall (o 37%). Ni nodwyd unrhyw wahaniaethau anghyffredin yn achos grwpiau ethnig eraill. Rhoddir cyfraddau atgyfeirio drwy'r system cyfiawnder troseddol yn Atodiad B, Tabl 5.

O'r holl atgyfeiriadau drwy'r system cyfiawnder troseddol, roedd 48% (1,391) ohonynt gan garchardai. Roedd cyfraddau'r grŵp Prydeinig Gwyn 11% yn is na'r cyfartaledd, tra oeddynt rhwng 54% a 74% yn uwch ymysg grwpiau Gwyddelig Gwyn, Cymysg Arall, Caribiaidd Du a Du Arall.

Daeth ychydig dros draean (36%) (1,040) o'r atgyfeiriadau drwy'r system cyfiawnder troseddol gan yr heddlu. Eto, roedd y gyfradd yn achos y grŵp Prydeinig Gwyn 16% yn is na'r cyfartaledd, tra oedd gan grwpiau Caribiaidd Du, Affricanaidd Du a Du Arall gyfraddau oedd yn uwch na'r cyfartaledd o rhwng 43% a 131%. Roedd y gyfradd hefyd 90% yn uwch na'r cyfartaledd ymysg y grŵp Gwyn Arall. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i'r rhai a gawsom yn 2005.

Yn olaf, daeth 14% (405) o'r atgyfeiriadau drwy'r system cyfiawnder troseddol o lysoedd, ond nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng grwpiau ethnig. Mae hyn mewn cyferbyniad â chyfrifiad 2005, lle roedd cyfradd atgyfeirio'r grŵp Caribiaidd Du o lysoedd ddwywaith yn uwch na'r cyfartaledd.

Gofal trydyddol: atgyfeiriadau o unedau diogel canolig neu uchel

Daeth cyfrannedd arwyddocaol (39%) o'r holl atgyfeiriadau o unedau gofal trydyddol.

Atgyfeiriwyd 5% (1,513) o gleifion mewnlol o unedau diogel canolig neu uchel yn y sectorau GIG neu annibynnol. Roedd cyfradd atgyfeiriadau o'r fath 9% yn is na'r cyfartaledd ymysg y grŵp Prydeinig Gwyn a 27% yn is ymysg y grŵp Gwyn Arall. Roedd y gyfradd yn uwch na'r cyfartaledd ymysg y grwpiau Caribiaidd Du, Affricanaidd Du a Du Arall, o 92%, 40% a 41% yn eu trefn. Ni sylwyd ar wahaniaethau ethnig eraill.

Gofal trydyddol: atgyfeiriadau gan wasanaethau cleifion mewnol eraill

Atgyfeiriwyd 21% (6285) o gleifion mewnol gan wasanaethau cleifion mewnol eraill, ac roedd 92% o'r rhain yn wasanaethau GIG. Yr unig wahaniaeth ethnig y sylwyd arno oedd cyfradd uwch na'r cyfartaledd ymysg merched o'r grŵp Caribiaidd Du.

Gofal trydyddol: atgyfeiriadau gan arbenigeddau clinigol eraill

Atgyfeiriwyd 13% (6,285) o gleifion mewnol gan arbenigeddau clinigol eraill. Roedd cyfraddau atgyfeiriadau o'r fath yn uwch na'r cyfartaledd ymysg y grwpiau Gwyn Arall, Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du ac Indiaidd, yn is na'r cyfartaledd ymysg dynion o'r grŵp Caribiaidd Du, ac ar ei isaf ymysg y ddau ryw yn y grŵp Arall.

Cadw dan y ddeddf iechyd meddwl

Yr holl gadwadau

Cafodd 40% (12,795) o gleifion mewnol eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar y diwrnod y cawsant eu derbyn i'r ysbyty, cyfrannedd debyg i'r un a welwyd yn 2005 (39%, 13,069). O'r holl gleifion a gadwyd, deuai 28% (3,578) o grŵp ethnig lleiafrifol. Roedd y rhai o'r grwpiau Caribiaidd Du, Affricanaidd Du, Du Arall, Caribiaidd Cymysg Gwyn/Du ac Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du rhwng 19% a 38% yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gael eu cadw. Yn y grwpiau Caribiaidd Du a Du Arall, roedd y gyfradd gadw uchaf ar y cyfan i'w phriodoli i raddau helaeth i gyfraddau uwch na'r cyfartaledd o gadwadau dan adran 37/41 - lle anfonir unigolyn i'r ysbyty gan lysoedd i dderbyn triniaeth, dan orchymyn cyfyngiad gan y Swyddfa Gartref.

Roedd cyfradd gadw merched o'r grŵp Gwyn Arall hefyd yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd cyfraddau cadw 6% yn is na'r cyfartaledd ymysg cleifion mewnol Prydeinig Gwyn. Ni sylwyd ar wyriadau o'r cyfartaledd yn achos grwpiau ethnig eraill. Rhoddir y cyfraddau cadw yn Atodiad B, Tabl 6.

Mae'r patrymau hyn yn debyg iawn i'r rhai a nodwyd yn 2005. Dyma'r eithriadau:

- yn 2005 roedd y cyfraddau cadw yn achos y grwpiau Caribiaidd Cymysg Gwyn/Du ac Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du yn agos at y cyfartaledd, ond roeddynt yn uwch na'r cyfartaledd yn 2006
- roedd gan ferched o'r grwpiau ethnig Cymysg Gwyn/Asiaidd, Asiaidd Arall, ac Arall gyfraddau cadw uwch na'r cyfartaledd yn 2005, ond roeddynt yn agos at y cyfartaledd yn 2006

Dadansoddwyd cyfraddau cadw gennym dan adrannau unigol y Ddeddf Iechyd Meddwl, i geisio gweld i beth y gellid priodoli'r cyfraddau uchel yn achos rhai grwpiau ethnig.

Cadw dan Adran 2

Mae Adran 2 y Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhoi awdurdod i gadw unigolyn mewn ysbyty i'w asesu am gyfnod sydd heb fod yn fwy na 28 diwrnod. Defnyddir hyn yn bennaf pan yw'r claf yn ddieithr i'r gwasanaeth neu pan fo cyfnod sylweddol wedi mynd heibio ers cyfnodau triniaeth fel claf mewnol a newid posibl mewn amgylchiadau. O'r holl gleifion a gadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, cadwyd 21% (2,710) ohonynt o dan yr adran hon.

Roedd cyfraddau cadw Adran 2 (gweler Atodiad B, Tabl 7) ymysg y grŵp Pacistanaidd 51% yn uwch na'r cyfartaledd, tra oedd cyfraddau cadw'r grwpiau Caribiaidd Du a Du Arall yn is na'r cyfartaledd o 36% a 28% yn eu trefn.

O ystyried y ddau ryw ar wahân, roedd cyfraddau cadw dynion o'r grwpiau Gwyn Arall a Phacistanaidd yn uwch na'r cyfartaledd (o 36% a 54% yn eu trefn), ac roedd cyfradd dynion o'r grŵp Caribiaidd Du 48% yn is. Yn achos merched, roedd cyfradd y grŵp Indiaidd 60% yn uwch na'r cyfartaledd, ac roedd cyfradd y grŵp Du Arall 49% yn is na'r cyfartaledd.

Roedd canlyniadau 2005 a 2006 yn debyg, gyda'r eithriadau canlynol:

- roedd cyfradd y grŵp Pacistanaidd yn agos at y cyfartaledd yn 2005, ond yn uwch na'r cyfartaledd yn 2006
- roedd gan y grŵp Affricanaidd Du gyfradd uwch na'r cyfartaledd yn 2005, ond roeddynt yn agos at y cyfartaledd yn 2006
- roedd cyfradd gadw'r grŵp Du Arall yn agos at y cyfartaledd yn 2005, ond roedd yn is na'r cyfartaledd yn 2006

Cadw dan Adran 3

Mae Adran 3 y Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu gorfodi claf i fynd i ysbyty i dderbyn 'triniaeth' ac yn caniatáu ei gadw yno am gyfnod a all bara am gyfnod cychwynnol o hyd at chwe mis.

O'r holl gleifion a gadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, cadwyd 46% (5,900) ohonynt dan yr adran hon. Ni sylwyd ar wahaniaethau ethnig yn achos cadwadau o dan adran 3 (Atodiad B, Tabl 8).

Cadw dan Adran 37/41

Mae Adran 37 y Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu i lys anfon unigolyn i ysbyty i gael triniaeth pan allai fel arall gael dedfryd o garchar, ac mae Adran 41 yn caniatáu i lys osod cyfyngiadau ar ryddhau rhywun o'r ysbyty.

O blith y cleifion a gadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, cafodd 12% (1,555) eu cadw dan Adran 37 gyda gorchymyn cyfyngiad Adran 41. Roedd cyfraddau cadw dynion o'r grwpiau Caribïaidd Du a Du Arall yn uwch na'r cyfartaledd (o 65% a 43% yn eu trefn). Ychydig iawn o ferched a gadwyd dan Adran 37 neu 41 ac ni sylwyd ar unrhyw wahaniaethau ethnig. Roedd y cyfraddau cadw uwch yn achos y grwpiau Caribïaidd Du a Du Arall i'w priodoli i raddau helaeth i gyfraddau cadw uwch na'r cyfartaledd dan adran 37/41 - lle mae'r llysoedd yn anfon unigolyn i ysbyty i gael triniaeth, dan orchymyn cyfyngiad gan y Swyddfa Gartref (cafodd oddeutu 20% o'r holl gleifion a gadwyd yn achos y grwpiau ethnig hyn eu cadw dan adran 2). Rhoddir y cyfraddau cadw yn Atodiad B, Tabl 9.

Mae'r patrymau hyn yn debyg iawn i'r rhai a nodwyd yn 2005. Yr unig wahaniaeth, fodd bynnag, oedd fod y gyfradd gadw yn achos y grŵp Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du yn uwch na'r cyfartaledd yn 2005, ond yn agos at y cyfartaledd yn 2006. Ystyrir fod anfon rhywun i ysbyty yn hytrach nag i garchar ar y cyfan yn ganlyniad mwy positif i'r unigolyn dan sylw.

Cadw dan Adrannau 47, 48, a 47/49

Mae'r Adrannau hyn o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu i'r Swyddfa Gartref gyflwyno cyfarwyddyd i drosglwyddo unigolyn a gedwir yn y carchar i ysbyty i dderbyn triniaeth. O'r cleifion a gadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, cadwyd 6% (738) ohonynt o dan yr Adrannau hyn.

Yr unig arsylwad arwyddocaol oedd fod cyfradd gadw dynion Affricanaidd Du 46% yn is na'r cyfartaledd. Rhoddir y cyfraddau cadw hyn yn Atodiad B, Tabl 10. Ychydig iawn o ferched a gadwyd o dan yr adrannau hyn, ac ni sylwyd ar unrhyw wahaniaethau ethnig. Darganfuwyd yr un patrymau yn 2005.

Cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (ar ddiwrnod y cyfrifiad)

Roedd ychydig o wahaniaethau rhwng cyfraddau cadw ar y diwrnod yr oedd claf yn cael ei dderbyn i'r ysbyty ac ar ddiwrnod y cyfrifiad. Yn y ddau achos, roedd cyfraddau'n uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Caribïaidd Du, Affricanaidd Du a Du Arall, ac nid oedd newid ers iddynt gael eu derbyn.

Fodd bynnag, un darganfyddiad o bwys yw fod cyfraddau cadw ymhlith y grwpiau Caribïaidd Cymysg Gwyn/Du ac Affricanaidd Cymysg Gwyn/Du yn uwch na'r cyfartaledd wrth gael eu derbyn, ond yn agos at y cyfartaledd erbyn diwrnod y cyfrifiad.

Cymhariaeth cyfraddau cadw ymysg darparwyr GIG ac annibynnol

Roedd bron i 83% o'r cleifion a gadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl mewn ysbytai a chyfleusterau GIG. Fodd bynnag, roedd cyfrannedd yr holl gleifion hynny a oedd mewn sefydliadau annibynnol oedd wedi eu cadw yn uwch na'r cyfrannedd cyfatebol o gleifion mewn sefydliadau GIG: roedd y gyfradd gadw 37% yn uwch na'r cyfartaledd mewn sefydliadau annibynnol a 5% yn is na'r cyfartaledd yn achos sefydliadau GIG. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith fod llawer o ddarparwyr annibynnol wedi eu cofrestru yn unig i dderbyn cleifion y maent yn debygol o orfod eu cadw. Mae Tabl 7 yn cymharu cyfraddau cadw yn achos darparwyr GIG ac annibynnol.

Tabl 7: Cymharu cyfraddau cadw yn achos darparwyr GIG ac annibynnol

Darparwr	Unigolion			Arsylwyd
	Cyfran safonedig	95% Cyfwng hyder		
		Is	Uwch	
GIG	95	93	96	10,356
Annibynnol	137	132	143	2,195
CYFANSWM	100			12,551

Cydsynio

Mae'r canlyniadau sy'n ymwneud â chydsynio, a'r arsylwadau y gellir eu gwneud o ganlyniad iddynt, yn debyg i rai 2005.

Ystyriwyd fod oddeutu 30% (5,521) o gleifion mewnol a dderbyniwyd yn anffurfiol yn anabl i gydsynio i dderbyn triniaeth. Roedd cyfraddau cleifion o'r fath yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grŵp Pacistanaidd, ac ymhlith dynion o'r grŵp Asiaidd Arall. Fodd bynnag, maent yn seiliedig ar nifer bychan o achosion.

O ran cleifion mewnol a gedwid, ystyrid fod oddeutu 20% (2,480) ohonynt yn anabl i gydsynio i dderbyn triniaeth. Roedd cyfraddau yn uwch na'r cyfartaledd yn achos y grŵp Tsieineaidd ac yn achos merched o'r grŵp Bangladeshiaidd (yn seiliedig, unwaith eto, ar niferoedd isel).

Hefyd, ystyrid fod 16% (2,060) o gleifion mewnol a gedwid yn abl i gydsynio i dderbyn triniaeth ond eu bod yn gwrthod gwneud hynny. Roedd cyfradd yr achosion o wrthod ymhlith y grŵp Caribiaidd Cymysg Gwyn/Du 45% yn uwch na'r cyfartaledd, ac yn achos y grŵp Bangladeshiaidd roedd y gyfradd 68% yn is (seiliwyd y ffigurau ar ychydig iawn o gleifion mewnol). Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghanlyniadau merched ymhlith y gwahanol grwpiau ethnig.

Dull rhaglen ofal

Mae'r dull rhaglen ofal yn rhoi cymorth i bobl ag anghenion iechyd meddwl tymor hir. Mae cleifion ag anghenion cymhleth yn dilyn dull rhaglen ofal uwch, tra bo eraill yn dilyn dull rhaglen ofal safonol.

Darganfuwyd gennym fod 66% o'r holl gleifion mewnol yn dilyn dull rhaglen ofal uwch. Yr unig wahaniaeth ethnig y sylwyd arno oedd fod gan y grŵp Gwyn Arall gyfradd is na'r cyfartaledd o gleifion oedd yn dilyn dull rhaglen ofal uwch.

Roedd rhai gwahaniaethau rhwng 2005 a 2006:

- yn 2005 darganfuwyd gennym fod 58% o gleifion mewnol yn dilyn dull rhaglen ofal uwch (o'i gymharu â 66% yn 2006)
- yn 2005 roedd dynion o'r grŵp Caribiaidd Du yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddilyn dull rhaglen ofal uwch, ond yn 2006 roedd eu cyfraddau yn agos at y cyfartaledd
- yn 2005 roedd cyfradd y cleifion yn y grŵp Gwyn Arall yn dilyn dull rhaglen ofal uwch yn agos at y cyfartaledd, ond yn is na'r cyfartaledd yn 2006

Digwyddiadau a gofnodwyd

Yn 2005 holwyd sawl gwaith yr oedd cleifion wedi cael eu neilltuo, wedi cael eu 'rheoli a'u hatal', neu wedi cael niwed. Yn 2006, ehangwyd y rhestr hon o ddigwyddiadau a gofnodwyd i gynnwys achosion o hunan-niwed, damweiniau ac ymosodiadau, ond ni chynhwyswyd achosion o niwed. Yn ogystal, yn hytrach na holi ynglŷn â'r holl amrediad o ddulliau 'rheoli ac atal' (yn cynnwys digwyddiadau nad oeddynt efallai yn cynnwys atal corfforol, megis 'darbwyllo'), holwyd am achosion o 'atal corfforol' yn unig.

Yn yr holl achosion o ddigwyddiadau a gofnodwyd, mae'r canlyniadau yn gysylltiedig â nifer y digwyddiadau yn ystod y cyfnod cyfredol mae claf yn ei dreulio mewn ysbyty, neu, os oedd cyfnod y claf yn yr ysbyty yn fwy na thri mis, â'r nifer a ddigwyddodd yn ystod y tri mis diwethaf.

Neilltuaeth

Roedd 3% (814) o gleifion mewnol wedi profi un neu fwy achos o neilltuaeth. Roedd cyfraddau neilltuaeth dynion o'r grwpiau Gwyn Gwyddelig a Charibiaidd Cymysg Gwyn/Du bron ddwywaith y cyfartaledd, ac ar y cyfan roedd gan y grŵp Du Arall gyfradd a oedd 57% yn uwch na'r cyfartaledd. Ni ddarganfuwyd unrhyw wahaniaethau ethnig ymysg merched.

Mae'r canlyniadau'n dangos rhai newidiadau o 2005:

- Roedd y grwpiau Du Caribiaidd a Du Affricanaidd â chyfraddau a oedd yn uwch na'r cyfartaledd yn 2005, ond roeddent yn gyfartalog yn 2006
- Syrthiodd y ffigwr uwch na'r cyfartaledd ar gyfer grwpiau Indiaidd a Chymysg Arall a gofnodwyd yn 2005, i fod yn gyfartalog yn 2006
- Roedd gan y grŵp Gwyn Prydeinig gyfradd isel yn 2005, a chyfradd gyfartalog yn 2006
- Aeth y grŵp Gwyn/ Du Caribiaidd Cymysg o fod â chyfradd cyfartalog yn 2005 i gyfradd uchel yn 2006

Ataliad Corfforol

Diffiniwyd ataliad corfforol fel un neu fwy aelod o staff yn atal claf yn gorfforol mewn ymateb i ymddygiad ymosodol neu wrthod triniaeth.

Roedd tua 8% (2,592) o gleifion mewnol wedi cael profiad o ataliad corfforol ar un neu fwy o adegau. Yr unig wahaniaeth ethnig a welwyd oedd bod cleifion mewnol o'r grŵp Gwyn/ Du Caribiaidd Cymysg yn 45% yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gael profiad o ataliad o'r fath. Roedd gan ddynion o'r grŵp Bangladeshaidd gyfradd is na'r cyfartaledd, ond roedd hyn yn seiliedig ar ychydig iawn o achosion.

O gofio'r newid mesuriad o reoli ac ataliad yn 2005 i ataliad corfforol yn 2006, nid yw'n bosibl cymharu ar draws y blynyddoedd.

Hunan-niwed

Roedd 6% (1,872) o gleifion mewnol wedi niweidio eu hunain ar fwy nag un achlysur. Dim ond y grŵp Gwyn Prydeinig oedd â chyfradd a oedd yn uwch na'r cyfartaledd (gan 14%). Roedd y cyfraddau rhwng y tri grŵp Du (Du Caribiaidd, Du Affricanaidd a Du Arall) a'r grwpiau Gwyn/ Du Caribiaidd Cymysg rhwng 65% a 77% yn is na'r cyfartaledd. Roedd cyfraddau hefyd yn is ymysg y grwpiau Pacistanaidd, Asiaidd Arall ac Arall (o 53%, 63% a 49% yn eu trefn). Fodd bynnag, mae rhai o'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar nifer bychan o achosion.

Nid yw'n bosibl cymharu â 2005 gan na chasglwyd yr wybodaeth yma yn 2005.

Damweiniau

Roedd tua 12% (3,648) o gleifion mewnol wedi cael profiad o un neu fwy o ddamweiniau. Cofnododd cleifion mewnol ymysg y grŵp Gwyn Prydeinig gyfradd damweiniau a oedd 4% yn uwch na'r cyfartaledd, ac o

bwysigrwydd ystadegol ymylol. Roedd gan y tri grŵp Du (Du Caribiaidd, Du Affricanaidd a Du Arall) gyfraddau a oedd rhwng 32% a 45% yn is na'r cyfartaledd, ac roedd gan y grŵp Indiaidd gyfraddau a oedd yn is na'r cyfartaledd o 34%.

Nid yw'n bosibl cymharu â 2005 gan na chasglwyd yr wybodaeth yma yn 2005.

Ymosodiadau


Roedd 13% (3,994) o gleifion mewnol yn gysylltiedig ag un neu fwy o ymosodiadau, er ni wnaethom ofyn pwy a ymosododd ar bwy (h.y. os mai claf neu aelod staff yr ymosodwyd amynt, neu os oedd yr ymosodiad gan glaf neu aelod staff arall). Roedd dau wahaniaeth sylweddol rhwng y cyfraddau ar gyfer grwpiau ethnig gwahanol; roedd gan ferched o'r grŵp Du Caribiaidd gyfradd ymosodiadau 44% yn uwch na'r cyfartaledd, ac roedd gan ddynion o'r grŵp Arall gyfradd a oedd 37% yn is na'r cyfartaledd.

Nid oedd hi'n bosibl cymharu â 2005 gan na chasglwyd yr wybodaeth yma yn 2005.

Hyd arhosiad yn yr ysbyty o'r diwrnod derbyn i ddiwrnod y cyfrifiad

Dadansoddwyd hyd y cyfnod rhwng derbyniad pob claf i'r ysbyty a diwrnod y cyfrifiad. Mae'r cyfnod hwn wrth gwrs yn fyrrach na hyd arhosiad llawn y claf yn yr ysbyty sy'n mynd o'r dyddiad derbyn i'r diwrnod y cânt eu rhyddhau. Mae Ffigwr 2 yn dangos hyd yr arhosiad o'r diwrnod derbyn i ddiwrnod y cyfrifiad.

Ffigur 2: Hyd arhosiad cleifion o'r diwrnod derbyn i ddiwrnod y cyfrifiad



Darganfu'r cyfrifiad bod:

- 26% o gleifion wedi bod yn yr ysbyty am fis neu lai
- 20% rhwng un a thri mis
- 23% rhwng tri a 12 mis
- 10% rhwng un a dwy flynedd
- 12% rhwng dwy a phum mlynedd
- 8% mwy na phum mlynedd

Fel dengys y ffigurau hyn, roedd bron i 30% o gleifion mewrol wedi bod yn yr ysbyty am dros flwyddyn. Felly, roedd bron i draean o'r cleifion yng nghyfrifiad 2006 hefyd yn rhan o gyfrifiad 2005.

Cyfrifwyd canolrif hyd arhosiad gwahanol grwpiau ethnig gennym. Y canolrif yw'r canolbwynt gwerthoedd, felly'r canolrif hyd arhosiad ar gyfer grŵp ethnig penodol yw'r un lle cafodd hanner cleifion y grŵp ethnig hwnnw hyd arhosiad sy'n llai na'r canolrif, a chafodd hanner arhosiad hirach na'r canolrif.

Tabl 8: Canolrif nifer y dyddiau o'r diwrnod derbyn i ddiwrnod cyfrifiad			
Grŵp Ethnig	Dynion	Merched	Unigolion
Gwyn Prydeinig	140	78	105
Gwyn Gwyddelig	194	84	129
Gwyn Arall	156	90	122
Gwyn a Du Caribiaidd	195	89	144
Gwyn a Du Affricanaidd	175	100	134
Gwyn ac Asiaidd	183	186	185
Cymysg Arall	233	99	163
Indiaidd	148	62	101
Pacistanaidd	98	55	77
Bangladeshaidd	125	59	80
Asiaidd arall	120	53	96
Du Caribiaidd	288	157	235
Du Affricanaidd	119	65	99
Du Arall	209	78	175
Tsieineaidd	83	74	78
Arall	151	86	131
CYFANSWM	147	78	107

Mae Tabl 8 yn dangos canolrif y nifer diwrnodau o'r diwrnod derbyn hyd ar ddiwrnod y cyfrifiad. Ar y cyfan, roedd y canolrif amser yr oedd merched wedi ei dreulio yn yr ysbyty tua dau fis a hanner, ac roedd dynion wedi treulio tua phum mis yno. Ymysg yr holl grwpiau ethnig, heblaw am ddynion grwpiau Tsieineaidd a Gwyn/ Asiaidd Cymysg, roedd dynion wedi bod yn yr ysbyty ddwywaith cymaint â merched.

Ar gyfer y ddau ryw, roedd canolrif y cyfnod yn yr ysbyty yn is na'r cyfartaledd ymysg y grwpiau canlynol: Gwyn Prydeinig, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Asiaidd Arall, Du Affricanaidd a Tsieineaidd. Yn y grŵp Indiaidd roedd y canolrif arhosiad yn yr ysbyty tua'r cyfartaledd ymysg dynion, ac yn is na'r cyfartaledd ymysg merched. Y ffordd arall yr oedd hi yn y grŵp Du Arall, efo'r canolrif hyd arhosiad yn uwch ymysg dynion ac yn gyfartalog ymysg merched. Roedd gan y grwpiau ethnig eraill ganolrif arhosiad yn yr ysbyty a oedd yn uwch na'r cyfartaledd ymysg y ddau ryw.

Y grŵp Du Caribiaidd oedd â'r canolrif uchaf ymysg dynion, a'r ail uchaf ymysg merched. Merched o'r tri grŵp De Asiaidd (Indiaidd, Pacistanaidd a Bangladeshaidd) a'r grŵp Asiaidd Arall oedd â'r hyd

arhosiad isaf.

Roedd un o bob 10 claf (3,353) ar ward arhosiad hir (ward ar gyfer cleifion sydd wedi bod yn yr ysbyty am fwy na blwyddyn). Roedd gan y grwpiau Du Caribïaidd ac Eraill Cymysg y cyfraddau a oedd yn uwch na'r cyfartaledd, fel ag yr oedd gan ddynion o'r grŵp Pacistaidd.

Mae'n bwysig nodi bod nifer o ffactorau'n effeithio ar hyd arhosiad claf yn yr ysbyty, gan gynnwys oedran, rhyw, os ydynt yn cael eu cadw i mewn ai peidio (o dan ba adran y cânt eu cadw mewn ac os oes gorchymyn gwaharddiad ychwanegol oddi wrth y Swyddfa Gartref), math a difrifoldeb eu salwch, natur eu triniaeth a faint o gefnogaeth sydd ar gael yn y gymuned. Nid yw'r data yn y cyfrifiad yn caniatáu ar gyfer dadansoddi'r ffactorau hyn.

Diogelwch Wardiau

Ward diogelwch canolig neu uchel

Fel yn 2005, roedd 11% (3,526) o'r holl gleifion mewnol ar ward diogelwch uchel neu ganolig, i'w gymharu â ward gyffredinol neu ddiogelwch isel. Roedd gan y grwpiau Gwyn Prydeinig a Tsieineaidd gyfradd o gleifion ar wardiau diogelwch canolig neu uchel a oedd yn is na'r cyfartaledd, fel ag yr oedd merched o'r grwpiau Indiaidd ac Asiaidd Arall, er bod eu ffigurau yn seiliedig ar nifer bychan o achosion.

Roedd y cyfraddau ar gyfer grwpiau Gwyn Gwyddelig a Cymysg Arall yn uwch na'r cyfartaledd, o 37% a 46% yn eu trefn. Ymysg dynion o'r grwpiau Du Caribïaidd, Du Affricanaidd, Du Arall, Cymysg Gwyn/ Du Caribïaidd a Gwyn/ Du Affricanaidd, roedd y cyfraddau rhwng 27% a 70% yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd y gyfradd hefyd yn uwch ymysg merched o'r grŵp Du Caribïaidd.

Ward diogelwch uchel

Fel yn 2005, roedd 3% (911) o'r holl gleifion mewnol ar ward diogelwch uchel (ffigwr sy'n cyfateb i 12% o'r cyfanswm o'r rheiny ar wardiau diogelwch isel, canolig ac uchel efo'i gilydd). Cyfrifwyd y gyfradd ar fod ar ward diogelwch uchel allan o'r cyfanswm cleifion ar ward ddiogel o unrhyw fath (boed hynny'n ward diogelwch isel, canolig neu uchel). Roedd dynion o'r grŵp Arall Cymysg yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i fod ar ward diogelwch uchel nac ar ward diogelwch isel neu ganolig, lle bo dynion o'r grŵp Du Affricanaidd a dynion a merched o'r grŵp Gwyn Arall yn llai tebygol o fod ar ward o'r fath.

Ychydig iawn o ferched (93 i gyd) oedd ar wardiau diogelwch uchel, ac ni arsylwyd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau ethnig.

Ystod Oedran Wardiau

Roedd pedwar deg tri o gleifion o dan 18 mlwydd oed yn derbyn gofal ar wardiau ar gyfer oedolion o oedran gweithio ac roedd dau ar wardiau ar gyfer pobl hŷn. Mae hyn yn welliant ar 2005, lle'r oedd 128 o blant yn derbyn gofal ar wardiau oedolion a saith ar wardiau ar gyfer pobl hŷn.

Roedd bron i 7% (1,482) o gleifion mewnol ar wardiau ar gyfer oedolion o oedran gweithio yn 65 oed neu hŷn, ac roedd 5% (513) o'r rheiny ar wardiau ar gyfer pobl hŷn yn bobl o oedran gweithio. Ychydig iawn o leoliadau 'allan o oedran' oedd yna ymysg grwpiau lleiafrif ethnig, felly nid oeddem yn gallu gwneud unrhyw sylwadau arwyddocaol ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng grwpiau ethnig.

Llety un rhyw

Nid oedd pum deg pump y cant o gleifion mewn llety un rhyw. Mae Tabl 9 yn dangos y gyfran o gleifion nad oedd mewn llety un rhyw. Roedd y gyfran cleifion mewn llety cymysg yn is ymysg y mwyafrif o grwpiau lleiafrif ethnig i'w cymharu â Gwyn Prydeinig. Yn bron pob yn o'r grwpiau ethnig, roedd y gyfran o ddynion mewn llety cymysg yn is nag ymysg merched. Yng nghyfrifiad 2005, roedd 78% o gleifion ar wardiau cymysg ac roedd y cyfraddau ymysg grwpiau lleiafrif ethnig hefyd yn is nag ymysg Gwyn Prydeinig. Fodd bynnag, nid oedd hi'n bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng y ddwy flynedd o ganlyniad i newidiadau yn y diffiniad o beth ydi llety un rhyw.

Tabl 9: Canran cleifion nad oedd mewn llety un rhyw

Categoriâu'r cyfrifiad	Dynion	Merched	Unigolion
Prydeinig	52.6	60.5	56.3
Gwyddelig	51.6	59.8	55.2
Gwyn Arall	53.4	62.1	57.4
Gwyn a Du Caribiaidd	46.5	54.8	48.8
Gwyn a Du Affricanaidd	46.0	59.0	51.0
Gwyn ac Asiaidd	50.0	48.1	49.5
Cymysg Arall	37.2	50.0	41.0
Indiaidd	47.1	54.7	49.6
Pacistanaidd	44.1	45.2	44.4
Bangladeshiaidd	40.5	55.3	44.9
Asiaidd arall	48.2	57.1	51.5
Caribiaidd	41.6	58.0	46.6
Affricanaidd	42.0	54.2	45.7
Du Arall	37.4	52.9	41.3
Tsieineaidd	57.9	45.0	51.3
Arall	44.6	54.3	47.6
CYFANSWM	50.8	59.9	54.9

Canlyniadau: anabledau dysgu

Cawsom wybodaeth am 4,609 o gleifion mewnol o 124 mudiad sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y rheiny ag anabledau dysgu yng Nghymru a Lloegr. Roedd y 124 mudiad yn cynnwys 75 o'r Ymddiriedolaethau GIG a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn y cyfrifiad (a dychwelodd 60 o'r rhain wybodaeth am eu cleifion mewnol iechyd meddwl), a 49 sefydliad gofal iechyd annibynnol. Mae Tabl 10 yn rhoi'r nifer o ddarparwyr a'r cleifion mewnol yng nghyfrifiad 2006.

Roedd y canlyniadau a roddwyd yn adran A, ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, bron yn sicr yn cynnwys rhai cleifion mewnol sydd ag anabledd dysgu neu anhwylder sbectwm awtistig. Ni ellid osgoi hyn, o ganlyniad i'r gorgyffwrdd sylweddol rhwng y gwasanaethau ar gyfer cleifion â phroblemau iechyd meddwl a'r rheiny ar gyfer cleifion ag anabledau dysgu. Gellir trin pobl â phroblem iechyd meddwl sydd hefyd ag anabledd dysgu yn y naill fath o wasanaeth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, efallai bod pobl ag anabledau dysgu yn cael trafferth cael at wasanaethau iechyd meddwl. Er mwyn delio â'r mater hwn mae'r Llywodraeth yn annog darparwyr gwasanaethau gofal iechyd i drin pobl ag anabledau dysgu sydd wedi cael diagnosis o broblem iechyd meddwl, mewn gwasanaethau iechyd meddwl prif ffrwd.

Daw tystiolaeth o hyn o'r ffaith bod 7% (317) o'r cleifion mewn gwasanaethau anabledau dysgu wedi cael eu cofnodi fel bod yno am broblem iechyd meddwl. Mae'n wir bod gan y mwyafrif o'r cleifion mewnol hyn anabledd dysgu neu anhwylder sbectwm awtistig (gan gynnwys syndrom Asperger), ond nid dyma'r prif reswm pam eu bod yn yr ysbyty. Doedd gan rai ddim anabledd dysgu nac anhwylder sbectwm awtistig chwaith, a'r unig reswm yr oeddent yn yr ysbyty oedd am fod ganddynt broblem iechyd meddwl neu anhwylder personoliaeth. Am resymau a eglurwyd yn gynharach yn yr adran ar ddata, dulliau dadansoddi a dehongli, caiff y cleifion hyn eu cynnwys yn yr adran hon yn hytrach nag yn yr adran ar iechyd meddwl.

Tabl 10: Nifer o ddarparwyr a chleifion mewnol anabledau dysgu

Darparwr	Cyfrifiad 2006		
	Nifer o ddarparwyr	Nifer o gleifion mewnol	% cleifion mewnol
GIG (Lloegr)	70	3,505	76.0
Annibynnol (Lloegr)	48	930	20.2
GIG (Cymru)	5	164	3.6
Annibynnol (Cymru)	1	10	0.2
Cyfanswm Cenedlaethol	124	4,609	100

Ethnigrwydd

Roedd data ar ethnigrwydd ar gael ar gyfer 98.8% o gleifion mewnol. O'r rhain, roedd 11% o grwpiau lleiafrif ethnig a du, a ddiffiniwyd fel yr holl grwpiau sydd ddim yn Gwyn Prydeinig (h.y. caiff grwpiau Gwyn Gwyddelig a Gwyn Eraill eu cyfrif ymysg y grwpiau du a lleiafrif ethnig). Mae'r ffigwr hwn yn sylweddol is na'r 21% o gleifion mewnol mewn gwasanaethau iechyd meddwl a oedd o grwpiau lleiafrif ethnig.

Roedd y grŵp ethnig Gwyn Prydeinig yn cynnwys 89% o'r cleifion mewnol, roedd 5% o'r grwpiau Du neu Du/ Gwyn Cymysg, 2% o grwpiau de Asiaidd, 1% Gwyn Gwyddelig, 2% o grwpiau Gwyn Arall, ac 1% o grwpiau ethnig eraill (gan gynnwys Tsieineaidd). Ar ôl y grŵp Gwyn Prydeinig, y grŵp cleifion mewnol mwyaf oedd Du Caribiaidd efo Gwyn Arall a Gwyn Gwyddelig yn dilyn.


Mae Tabl 11 yn dangos grwpiau ethnig cleifion. Fel y gellir gweld yn y tabl, ychydig iawn o gleifion mewnol oedd gan rai grwpiau ethnig. Mae hyn yn cyfyngu ar y sylwadau yr oeddem yn gallu eu gwneud.

Tabl 11: Cleifion mewnol ag anabledau dysgu yn ôl grŵp ethnig		
Grŵp ethnig	%	Nifer
Gwyn Prydeinig	88.7	4,037
Gwyn Gwyddelig	1.4	66
Gwyn Arall	1.7	77
Gwyn a Du Caribiaidd	0.7	32
Gwyn a Du Affricanaidd	0.1	3
Gwyn ac Asiaidd	0.2	9
Cymysg Arall	0.3	14
Indiaidd	1.1	49
Pacistanaid	0.7	34
Bangladeshiaidd	0.2	9
Asiaidd arall	0.3	12
Du Caribiaidd	2.8	129
Du Affricanaidd	0.7	33
Du Arall	0.4	17
Tsieineaidd	0.2	7
Arall	0.5	24
CYFANSWM	100	4552

Roedd tua 77% o gleifion preswyl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol o 27 o'r 124 sefydliad a gymerodd ran yn y cyfrifiad. Roedd y 23% sy'n weddill yn cynnwys nifer o sefydliadau: roedd gan 58 o'r 124 o sefydliadau lai na phum claf preswyl o bob un o'r grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, ac o'r rhain, nid oedd gan 36 unrhyw gleifion preswyl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol. Mae ffigwr 3 yn dangos dyraniad y cleifion mewnol fesul darparwyr.

Mae'n bwysig sylweddoli, fodd bynnag, bod nifer y bobl sydd ag anabledau dysgu difrifol mewn rhai manau yn cael eu heffeithio gan ariannu ac arferion lleoli, yn enwedig presenoldeb hen ysbytai arhosiad hir a phobl sy'n cael eu lleoli tu allan i'w hardal breswyl gwreiddiol gan awdurdodau sy'n eu hariannu.

Ffigwr 3: Anabledau dysgu- nifer y cleifion preswyl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol fesul darparwr



Adroddiad o ethnigrydd

Rhoddodd llai na hanner (44%) o gleifion preswyl wybod am eu grŵp ethnig eu hunain, o gymharu â 75% o gleifion preswyl oedd mewn gwasanaethau iechyd meddwl a wnaeth hynny. Ar gyfer 39% o gleifion

preswyl, y staff roddodd wybod am y grŵp ethnig ac ar gyfer 17% ohonynt, perthnasau roddodd y wybodaeth. Felly, mae'n bosib bod y wybodaeth anghywir wedi'i roi am eu hethnigrwydd, a gallai hyn amrywio'r grŵp ethnig.

Roedd y gyfran o gleifion preswyl a roddodd wybod am eu hethnigrwydd eu hunain isaf ymysg y grwpiau Gwyn Prydeinig, Gwyn Gwyddelig, Gwyn Arall a Du Caribiaidd.

Oed a rhyw

Yn achos 2% o gleifion preswyl, ni roddwyd gwybodaeth am oed. O'r rhai a gafwyd, roedd 2% (110) dan 18 oed a 29% (1,295) yn 50 oed neu'n hŷn. Yn yr un modd â chleifion preswyl iechyd meddwl, roedd y gyfran o bobl ifanc (dan 50 oed) yn uwch ymysg cleifion preswyl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol (ac eithrio'r grŵp Gwyn Gwyddelig) nag ymysg y grŵp Gwyn. Nid yw hyn yn syndod wrth gofio'r ffaith bod gan boblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr gyfran uwch o bobl ifanc yn y rhan fwyaf o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol nag ymysg y grŵp Gwyn Prydeinig.

Roedd bron i ddwy ran o dair o gleifion preswyl yn ddynion, ac roedd 55% o gleifion preswyl iechyd meddwl yn ddynion. Mae Tabl 12 yn dangos oed a rhyw y cleifion mewnol.

Tabl 12: Oed a rhyw y cleifion preswyl				
Grŵp ethnig	Oed (%)		Rhyw (%)	
	Dan 50	50 neu hŷn	Dynion	Merched
Gwyn Prydeinig	69.3	30.7	65.0	34.8
Gwyn Gwyddelig	72.3	27.7	68.2	31.8
Gwyn Arall	84.4	15.6	62.3	37.7
Gwyn a Du Caribiaidd	96.8	3.2	78.1	21.9
Gwyn a Du Affricanaidd	100	0.0	33.3	66.7
Gwyn ac Asiaidd	100	0.0	88.9	11.1
Cymysg Arall	76.9	23.1	57.1	42.9
Indiaidd	83.3	16.7	65.3	34.7
Pacistanaidd	94.1	5.9	88.2	11.8
Bangladeshiaidd	100	0.0	100	0.0
Asiaidd arall	100	0.0	83.3	16.7
Du Caribiaidd	93	7.0	71.3	28.7
Du Affricanaidd	97	3.0	75.8	24.2
Du Arall	100	0.0	70.6	29.4
Tsieineaidd	85.7	14.3	71.4	28.6
Arall	91.7	8.3	62.5	37.5
CYFANSWM	71.4 (n=3,235)	28.6 (n=1,295)	65.8 (n=3,034)	34.0 (n=1,567)

laith a chrefydd

Nododd pump y cant (232) o gleifion preswyl nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Y grwpiau gyda'r gyfran uchaf o bobl heb Saesneg fel eu hiaith gyntaf oedd y grwpiau Asiaidd Deheuol a Tsieineaidd. Dywedodd dau y cant (91) o gleifion preswyl eu bod angen dehonglydd, ac o'r rhain roedd 65 yn y grŵp Gwyn Prydeinig. Mae'r patrymau hyn yn debyg iawn ymysg y cleifion preswyl ieched meddwl.

Nodwyd di-eiriau, signalong, defnyddio ystumiau, Makaton ac laith Arwyddion Prydeinig hefyd ar gyfer nifer o gleifion preswyl oedd ag anabledd dysgu.

Mewn perthynas â chrefydd, dywedodd 13% o gleifion preswyl nad oedd ganddynt un, ac ni nododd 14% arall unrhyw beth. Roedd y rhan fwyaf o'r grŵp De Asiaidd yn Foslemiaid, Hindwiaid neu Siciaid, ac roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau Du a Gwyn / Du Cymysg yn Gristinogion.

Tueddfryd rhywiol

Gofynnwyd i'r 4,530 o gleifion preswyl oedd yn 16 oed neu'n hŷn am eu tueddfryd rhywiol. O'r rhain, ni atebodd 33% y cwestiwn, ac nid oedd y canlyniadau'n ddilys ar gyfer 2% o gleifion preswyl. Felly, nid ydym yn gwybod tueddfryd rhywiol tua 35% (1,594) o gleifion preswyl oedd yn gymwys i ateb y cwestiwn.

O'r rheiny atebodd y cwestiwn am dueddfryd rhywiol, dywedodd 59% eu bod yn heterorywiol, dywedodd 2% eu bod yn hoyw / lesbiaid, dywedodd 3% eu bod yn ddeurywiol, a dywedodd 36% 'Arall' (mae'r categori Arall yn cynnwys 'ddim yn gwybod', 'trawsrywiol', 'ddim yn dymuno ateb ond ddim eisiau cael eu nodi fel gwrthod', a 'tueddfryd rhywiol arall'). Mae'n debyg bod y 36% yn y categori 'arall' hefyd yn cynnwys cleifion preswyl nas gofynnwyd y cwestiwn iddynt gan y staff, gan nad oedd gan nifer arwyddocaol o ddarparwyr cleifion preswyl unrhyw gofnod o gleifion fel hoyw / lesbaidd neu ddeurywiol.

Roedd cyfran y rheiny nad oeddent yn heterorywiol ym mhob grŵp ethnig lleiafrifol yn isel iawn (dim neu ffigurau sengl), felly nid oedd modd cynnal dadansoddiad pellach o grŵp ethnig fesul tueddfryd rhywiol.

Anabledd

O'r holl gleifion preswyl mewn gwasanaethau anabledd dysgu:

- Roedd gan 99% naill ai anabledd dysgu neu anhwylder syndrom awtistiaeth, a nododd rhai bod ganddynt y ddau
- Roedd gan 34% (1,555), gan gynnwys nifer o grwpiau ethnig lleiafrifol, fwy nag un anabledd
- Nododd 10% (458) nad oedd ganddynt anabledd (er mai'r rheswm fod pob un o'r rhain ac eithrio 190 ohonynt yn yr ysbyty oedd oherwydd anabledd dysgu)

- Nodwyd bod ychydig ohonynt (28 claf preswyl i gyd) yn ddall, yn fyddar neu'n defnyddio cadair olwynion

Mae'n werth nodi bod 19% (24) o gleifion preswyl Du Caribiaidd wedi nodi dim anabled.

Cyfraddau Derbyn

Rhoddir y cyfraddau derbyn yn Atodiad C, Tabl 1.

Roedd gan ddynion o'r grwpiau Gwyn Arall, Indiaidd a Tsieineaidd gyfraddau derbyn is na'r cyfartaledd, o 43%, 51% a 65% yn ôl eu trefn. Roedd y cyfraddau tua thair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer dynion o'r grwpiau Gwyn / Du Caribiaidd Cymysg, Du Caribiaidd a Du Arall.

Roedd cyfraddau derbyn merched o'r grwpiau Indiaidd a Phacistaniaidd yn sylweddol is na'r cyfartaledd (o 44% a 76% yn ôl eu trefn), ac nid oedd unrhyw ferched o'r grŵp Bangladeshiaidd ymysg y cleifion preswyl. Yn yr un modd â dynion, roedd cyfraddau derbyn hefyd yn is na'r cyfartaledd ymysg y grwpiau Gwyn Arall a Tsieineaidd, o 35% a 73% yn ôl eu trefn. Roedd y cyfraddau bron yn ddwbl y cyfartaledd ymysg merched o'r grŵp Du Caribiaidd.

Pan gyfunom y cyfraddau mynediad ar gyfer y ddau ryw, roedd y rheiny ar gyfer y grwpiau Asiaidd Deheuol ac Asiaidd arall, y grwpiau Gwyn Arall a Tsieineaidd yn is na'r cyfartaledd, ac roedd y cyfraddau ar gyfer Gwyn / Du Caribiaidd Cymysg, Du Caribiaidd a grwpiau Du Arall rhwng dwywaith a thair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd.

Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i'r rheiny ar gyfer cleifion preswyl mewn sefydliadau iechyd meddwl, yn enwedig y cyfraddau is ymysg grwpiau Indiaidd a Tsieineaidd a'r cyfraddau uwch ymysg y grwpiau Du.

Newidiadau mewn amcangyfrifon poblogaeth

Amcangyfrifom y cyfraddau derbyn uchod drwy ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth cyfrifiad 2001 o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Fodd bynnag, nid yw'r amcangyfrifon hyn yn ystyried y cynnydd sylweddol yn nifer y bobl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru a Lloegr ers 2001. Yn ddiweddar, cynhyrnod yr ONS amcangyfrifon poblogaeth wedi'i ddiweddarau fesul grŵp ethnig ar gyfer 2003, sy'n bwriadu adlewyrchu'r newidiadau hyn²¹ Mae'r ONS yn disgrifio'r amcangyfrifon hyn fel 'arbrofol, ac maent yn amodol ar ychydig o wallau.

Er mai ar gyfer Lloegr yn unig mae'r wybodaeth yma ar gael, ac er nad ydynt yn adlewyrchu newidiadau demograffig rhwng 2003 a 2006, rydym wedi defnyddio'r amcangyfrifon 2003 hyn i ail-gyfrifo cyfraddau derbyn 2006 ar gyfer Lloegr. Mae Tabl 13 yn cymharu'r canlyniadau drwy ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth ONS 2001 gyda'r canlyniadau drwy ddefnyddio ei amcangyfrifon ar gyfer 2003.

Yn yr un modd â chleifon preswyl mewn sefydliadau iechyd meddwl, mae defnyddio amcangyfrifon 2003 yn cynyddu'r cyfraddau derbyn ar gyfer y grwpiau Gwyn Prydeinig a Gwyn Gwyddelig, ac yn eu gostwng ar gyfer pob grŵp ethnig arall. Mae hefyd yn gostwng cyfraddau derbyn y grŵp Du Affricanaidd yn sylweddol, gan ddangos sensitifrwydd y cyfraddau derbyn i newidiadau yn amcangyfrifon y boblogaeth. Mae'r patrymau cyffredinol yn aros yr un fath.

Tabl 13: Cyfraddau derbyn fesul grŵp ethnig ar gyfer Lloegr

Grŵp ethnig	Defnyddio amcangyfrifon poblogaeth ONS 2003				Defnyddio amcangyfrifon poblogaeth ONS 2001			
	Cyfradd Safonedig Derbyn	95% cyfwng hyder		Arsylwyd	Cyfradd Safonedig Derbyn	95% cyfwng hyder		Arsylwyd
		Is	Uwch			Is	Uwch	
Gwyn Prydeinig	103	100	107	3,790	101	98	105	3,790
Gwyn Gwyddelig	110	84	141	63	105	80	134	63
Gwyn Arall	55	43	69	77	60	48	75	77
Gwyn a Du Caribiaidd	237	161	337	31	275	187	390	31
Gwyn a Du Affricanaidd	48	10	140	3	59	12	172	3
Gwyn ac Asiaidd	67	31	127	9	78	36	149	9
Cymysg Arall	112	60	191	13	131	70	225	13
Indiaidd	47	34	62	48	50	37	67	48
Pacistanaidd	57	39	79	34	62	43	87	34
Bangladeshiaidd	40	18	76	9	45	21	86	9
Asiaidd arall	43	22	76	12	51	26	90	12
Du Caribiaidd	240	200	285	128	251	209	299	128
Du Affricanaidd	62	43	87	33	81	56	113	33
Du Arall	201	115	327	16	228	131	371	16
Tsieineaidd	25	10	51	7	32	13	67	7
Arall	87	56	129	24	117	75	173	24
CYFANSWM	100			4,297	100			4,297

Ffynhonnell y cyfeiriad

Fel y nodom yn yr adran ar ganlyniadau iechyd meddwl, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus wrth ddehongli data am ffynonellau cyfeirio, yn enwedig yn achos cleifion preswyl ag anabledau dysgu, gan fod y wybodaeth yma'n annilys, ar goll neu'n anhysbys ar gyfer 14% (639) ohonynt. Mae'r manylion llawn i'w cael yn: www.healthcarecommission.org.uk/countmein

Cyfeirio eu hunain neu gan gyflogwr

O'r 9% (352) o gleifion preswyl a gyfeiriwyd i'r ysbyty, cafodd bron bob un (95%) eu cyfeirio gan ofalwyr. Roedd cleifion preswyl o'r grwpiau Gwyn Gwyddelig, Gwyn Arall a Du Caribiaidd ddwywaith mor debygol ar gyfartaledd o gael eu cyfeirio gan ofalwyr.

Cyfeirio o unedau diogelwch canolig neu uchel (GIG neu sector annibynnol)

